



Llywodraeth Cymru Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Ymgynghoriad ar y Cynnig Deddfwriaethol i Ddileu Amddiffyniad Cosb
Resymol

Awst 2018

Cynulleidfa

Awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus eraill, y Trydydd Sector, grwpiau ffydd, rhieni/ gofalwyr a phartïon eraill â diddordeb.

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion a dderbyniwyd i'n hymgyngoriad a gyhoeddwyd ar 9 Ionawr 2017 ar gynnig Llywodraeth Cymru i ddileu amddiffyniad cosb resymol yng Nghymru.

Camau Angenrheidiol

Dim – er gwybodaeth yn unig

Rhagor o wybodaeth

Cangen Deddfwriaeth a Rhianta

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: talkparenting@gov.wales

Cynnwys

Cyflwyniad.....	4
Cyd-destun polisi	4
Am yr ymgynghoriad.....	5
Am y crynodeb hwn o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.....	6
Ymatebion i'r ymgynghoriad	6
Methodoleg.....	6
Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad	9
Cwestiwn 1	9
Cwestiwn 2	15
Cwestiwn 3	19
Cwestiwn 4	23
Cwestiwn 5	27
Cwestiwn 6	32
Cwestiwn 7	34
Ymatebion eraill i'r ymgynghoriad.....	38
Crynodeb o Adborth o Weithgareddau Ymgynghori â'r Cyhoedd.....	41
Canfyddiadau Allweddol	41
Atodiad A - Rhestr Ymgynghori.....	44

Cyflwyniad

Cyd-destun polisi

Ers pasio Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011¹, bu rhaid i bob un o Weinidogion Cymru roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) wrth wneud penderfyniadau. Mae argymhellion dilynol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wedi datgan y dylai'r Deyrnas Unedig (fel Aelod-wladwriaeth) wahardd pob math o gosb gorfforol yn y teulu, gan gynnwys diddymu pob amddiffyniad cyfreithiol.² Mae'r argymhellion hyn yn berthnasol i Erthygl 19 (paragraff 1)³ CCUHP, sy'n datgan:

“Bydd Partion yn cyflawni'r holl fesurau deddfwriaethol, gweinyddol, cymdeithasol ac addysgol priodol er mwyn diogelu'r plentyn rhag pob math o drais corfforol neu feddyliol, anaf neu gam-drin, esgeulustod neu driniaeth esgeulus, camarfer neu gamfanteisio, gan gynnwys cam-drin rhywiol, pan fyddant yng ngofal rhiant(rhieni), gwarcheidwad(gwarcheidwaid) cyfreithiol neu unrhyw unigolyn arall sy'n gofalu am y plentyn.”

Roedd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddileu amddiffyniad cosb resymol wedi'i nodi yn "Symud Cymru Ymlaen", Rhaglen Lywodraethu 2016-2021.⁴ Amcan cyffredinol y ddeddfwriaeth arfaethedig yw cefnogi hawliau plant drwy wahardd cosbi plant yn gorfforol o fewn y teulu. Bwriedir cyflawni'r amcan hwn drwy ddeddfwriaeth i ddileu amddiffyniad cosb resymol. Mae rhieni ac oedolion sy'n gweithredu in loco parentis ar hyn o bryd yn medru dibynnu ar yr amddiffyniad cosb resymol yn erbyn cyhuddiad o ymosod cyffredin.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu'r cynnig hwn fel rhan o becyn llawer ehangach o fesurau a weithredir ganddi er mwyn cynorthwyo plant a'u rhieni. Mae'r pecyn ehangach hwn o fesurau yn cynnwys:

- ymgyrch “Magu plant. Rhowch amser iddo”, sy'n ceisio cynnig dulliau i rieni y byddant yn eu helpu i wneud eu gorau, trwy gynnig gwybodaeth a chynghor cadarnhaol ynghylch magu plant;
- mynediad i ystod o wasanaethau er mwyn hyrwyddo rhianta cadarnhaol a ddarparir gan bartneriaid o lywodraeth leol, iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, cyfiawnder cymdeithasol a'r trydydd sector; a
- mwy o ymyriadau wedi'u targedu megis Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf, sy'n cynnig cymorth a chynghor i rieni.

¹ <http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/2/contents> [Cyrchwyd:18 Mai 2018]

² Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn, Concluding Observations on the fifth periodic report of the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland, CRC/C/GBR/CO/5, 03/06/16, ar gael trwy droi at: http://tbinternet.ohchr.org/Treaties/CRC/Shared%20Documents/GBR/CRC_C_GBR_CO_5_24195_E.docx

Cyffredinol [Cyrchwyd: 18 Mai 2018]

³ <http://www.ohchr.org/en/professionalinterest/pages/crc.aspx> [Cyrchwyd: 18 Mai 2018]

⁴ <https://gov.wales/docs/strategies/160920-taking-wales-forward-en.pdf> [Cyrchwyd: 18 Mai 2017]

Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru yn adrodd bod “ein dealltwriaeth o'r hyn sy'n ofynnol er mwyn diogelu a chynorthwyo unigolion, plant a'u teuluoedd wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd ac mae normau cymdeithasol wedi newid o ganlyniad.” Mae gwahardd defnyddio cosb gorfforol mewn ysgolion yn enghraifft o un newid o'r fath. O fewn y cyd-destun hwn, mae Llywodraeth Cymru yn adrodd y bydd dileu amddiffyniad cosb resymol yn “ddilyniant naturiol a rhesymegol, gan sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael y cyfle i ffynnu ac i wireddu eu potensial.”⁵

Cyn cynnal yr ymgynghoriad ffurfiol, mabwysiadwyd yr hashnod TrafodMaguPlant i godi ymwybyddiaeth a chreu sgwrs ar-lein ar y pwnc. Fel rhan o hyn, defnyddiwyd arolwg ymgysylltu ar-lein rhwng 2 Hydref a 24 Tachwedd 2017 i gasglu barn y rhai oedd yn cymryd rhan yn y sgwrs #TrafodMaguPlant ar-lein, gan gynnwys cwestiynau penodol ar y ddeddfwriaeth arfaethedig. Mae gwybodaeth bellach ynghylch yr adborth o'r sgwrs #TrafodMaguPlant ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

<https://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/parenting-support-guidance/talk-parenting/?skip=1&lang=cy>

Am yr ymgynghoriad

Lansiwyd yr ymgynghoriad ynghylch cynigion deddfwriaethol i ddileu amddiffyniad cosb resymol ar 9 Ionawr 2018, a daeth i ben ar 2 Ebrill 2018. Gellir gweld testun llawn yr ymgynghoriad trwy droi at:

<https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-02/180109-legislation-consultation-cy.pdf>

Diben yr ymgynghoriad oedd casglu safbwyntiau amrediad o randdeiliaid er mwyn cyfrannu at ddatblygiad pellach y cynnig deddfwriaethol a helpu Llywodraeth Cymru i roi sylw i unrhyw bryderon wrth i'r ddeddfwriaeth ddatblygu.

Dosbarthwyd yr ymgynghoriad yn eang mewn ffurf electronig a thrwy gyfryngau cymdeithasol, ac fe'i cyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru hefyd.

Yn ogystal, cynhaliwyd digwyddiadau ymgysylltu allanol gyda rhanddeiliaid, y cyhoedd a phlant a phobl ifanc yn ystod y cyfnod ymgynghori. Gellir gweld crynodeb o'r safbwyntiau a fynegwyd yn ystod y gweithgarwch hwn yn adran derfynol yr adroddiad hwn ar dudalen 34. Cyhoeddir yr adroddiad llawn fel Atodiad i'r adroddiad hwn.

<https://beta.llyw.cymru/cynnig-deddfwriaethol-i-ddileu-amddiffyniad-cosb-resymol>

⁵ <https://beta.gov.wales/sites/default/files/consultations/2018-02/180109-legislation-consultation-en.pdf> [Cyrchwyd: 18 Mai 2018]

Am y crynodeb hwn o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Comisiynwyd Ymchwil Arad gan Lywodraeth Cymru i ddadansoddi'r ymatebion a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad, ac i dynnu allan y prif negeseuon sy'n ymwneud â themâu penodol a chyflwyno prif ganfyddiadau. Mae'r ddogfen hon yn cynnig crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad trwy gyfrwng:

- yr ymgynghoriad ar-lein;
- copïau papur neu gopïau electronig amgen o'r ymgynghoriad; a
- thrwy gyfrwng gohebiaeth ychwanegol a gafwyd ar ffurf negeseuon e-bost neu lythyrau.

Ymatebion i'r ymgynghoriad

At ei gilydd, cafwyd **1741 o ymatebion** yr oeddent yn dilyn strwythur y saith cwestiwn yn yr ymgynghoriad (er nad oedd pob ymateb wedi cynnig atebion i bob cwestiwn):

- Cafwyd 1335 o'r rhain ar ffurf ymatebion ar-lein i'r ymgynghoriad, a chafwyd y 406 arall ar ffurf ffurflenni ymgynghori wedi'u hysgrifennu â llaw neu eu teipio.
- Roedd 1008 o ymatebwyr wedi dewis bod yn ddienw.
- Nodwyd bod 80 o ymatebion wedi cael eu gwneud gan sefydliad yn hytrach nag unigolyn.
- Nodwyd bod 27 o ymatebion gan ymatebwyr y tu allan i Gymru.

Cafwyd **151 o ymatebion ysgrifenedig pellach**, nad oeddent yn dilyn strwythur y cwestiynau yn yr ymgynghoriad. Cafwyd y rhain ar ffurf negeseuon e-bost a llythyrau. Nodwyd bod pump o'r ymatebion hyn gan ymatebwyr o'r tu allan i Gymru.

Yn ogystal, roedd **dau ymatebydd**, yr oeddent wedi darparu ymatebion a oedd yn dilyn strwythur y saith cwestiwn yn yr ymgynghoriad, wedi mynegi sylwadau ychwanegol hefyd ar ffurf negeseuon e-bost neu lythyrau.

Methodoleg

Cam 1

Cynhaliwyd dadansoddiad o'r data meintiol (h.y. data a oedd yn seiliedig ar gwestiynau caeëdig) yn y 1741 o ymatebion yr oeddent wedi dilyn strwythur y cwestiynau yn yr ymgynghoriad. Roedd yr ymatebion meintiol hyn yn cynnwys atebion megis 'ydw', 'nac ydw' neu 'dim syniad' i rai o'r cwestiynau yn yr ymgynghoriad. Ni fwriedir i'r data a gesglir ar gyfer yr ymgynghoriad hwn fod yn gynrychioliadol o'r boblogaeth ehangach na bod modd ei gyffredinoli i'r boblogaeth ehangach.

Cam 2

Cynhaliwyd dadansoddiad thematig o'r data ansoddol (data sy'n seiliedig ar gwestiynau penagored) yn y 1741 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae'r dadansoddiad thematig yn categoreiddio'r safbwyntiau, y sylwadau, y datganiadau a'r materion a godir gan ymatebwyr yn themâu cyffredinol. Nod y dadansoddiad

oedd nodi'r themâu y mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn perthyn iddynt amlaf. Roedd y broses er mwyn gwneud y gwaith dadansoddi hwn fel a ganlyn.

1. Adolygwyd sampl ar hap o'r ymatebion ar gyfer pob cwestiwn dan ddau ymchwilydd (pob un yn adolygu gwahanol hanner o'r sampl). Pennwyd maint y sampl gan gyfanswm yr ymatebion i bob cwestiwn, gan gynnwys o leiaf 50% o gyfanswm yr ymatebion i bob cwestiwn.
2. Rhoddwyd cod i'r ymatebion yn y sampl mewn ffordd thematig, er mwyn nodi'r themâu sy'n codi amlaf. Defnyddiwyd meddalwedd dadansoddi data ansoddol er mwyn hwyluso'r gwaith o ddadansoddi darnau mwy o destun.
3. Yna, bu un o'r ymchwilydd yn adolygu'r holl ymatebion a oedd yn weddill i bob cwestiwn, er mwyn sicrhau bod y themâu a nodwyd yn parhau i fod yn gyson. Roedd hyn yn cynnwys cymharu sylwadau'r rhai yr oeddent wedi ateb 'ydw', 'nac ydw' neu 'dim syniad' i gwestiynau perthnasol (gan gydnabod bod y gwahoddiad i ymatebwyr gynnig sylwadau ychwanegol yn dibynnu ar eu hymateb i'r cwestiwn 'ydw/nac ydw/dim syniad').
4. Roedd y broses hon yn sicrhau yr adolygwyd yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad yn ystod y gwaith dadansoddi.

Cam 3

Cynhaliwyd dadansoddiad thematig o'r 151 o ymatebion ansoddol nad oeddent yn dilyn strwythur y cwestiynau yn yr ymgynghoriad. Roedd y broses er mwyn cynnal y dadansoddiad hwn fel a ganlyn.

1. Adolygwyd pob ymateb gan un o blith dau ymchwilydd. Rhoddwyd cod i'r ymatebion mewn ffordd thematig, er mwyn nodi'r themâu a oedd wedi codi amlaf. Defnyddiwyd meddalwedd dadansoddi data ansoddol er mwyn hwyluso'r gwaith o ddadansoddi darnau mwy o destun.
2. Cyflwynwyd y themâu a godwyd yn yr ymatebion hyn i'r ymgynghoriad fel adran ar wahân o fewn y ddogfen hon sy'n cynnig crynodeb o'r ymatebion.

Dadansoddiad pellach

Roedd y dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn ystyried y gwahaniaethau o ran yr ymatebion, rhwng y rhai y nodwyd eu bod yn dod o Gymru a'r rhai y nodwyd eu bod yn dod o'r tu allan i Gymru. O ganlyniad i nifer isel yr ymatebion y nodwyd eu bod yn dod o'r tu allan i Gymru (cyfanswm o 27), ni fu modd canfod patrwm amlwg.

Roedd y dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn ystyried y gwahaniaethau o ran yr ymatebion, rhwng y rhai y nodwyd eu bod gan sefydliad a'r holl ymatebion eraill. Nodwyd bod nifer yr ymatebion a gafwyd gan sefydliadau yn isel (cyfanswm o 80 o blith y cyfanswm o 1741) ac roedd nifer o ymatebion yn rhai dienw, sy'n golygu nad oedd modd nodi holl safbwyntiau sefydliadau. O'r herwydd, ni nododd dadansoddiad Arad batrymau o ran safbwyntiau sefydliadau, y byddai modd eu gwahaniaethu o safbwyntiau unigolion mewn ffordd bendant.

Nodyn ynghylch terminoleg

Yn y fersiwn Saesneg o'r ddogfen ymgynghori, defnyddir y termau corporal punishment a physical punishment. Nid yw'r gwahaniaethu hwn yn bodoli yn y Gymraeg, lle y defnyddir cosb gorfforol am y ddau derm Saesneg uchod.

Yn ogystal, mae Cwestiwn 3 o'r holiadur ymgynghorol yn gofyn yn benodol am y 'mathau o o weithrediadau/ymddygiadau fydddech chi'n ystyried eu bod yn enghreifftiau o 'gosb gorfforol'? ('corporal punishment' yn y Saesneg) Noder bod fersiwn Saesneg yr adroddiad hwn yn cyfeirio, gan amlaf, at corporal punishment wrth ymdrin ag ymatebion i'r cwestiwn hwn.

Wrth gyfeirio at y cynnig deddfwriaethol yn benodol, rydym wedi defnyddio'r term cosb resymol.

Pan ddefnyddir dyfyniadau a detholiadau o ymatebion i'r ymgynghoriad, rydym wedi cadw'r geiriad gwreiddiol a ddefnyddiwyd.

Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Seiliwyd y dadansoddiad a ddarparir yn yr adran hon dan bob cwestiwn i'r ymgynghoriad (cwestiwn 1 i 7) ar y 1741 o ymatebion a oedd yn dilyn strwythur y saith cwestiwn yn yr ymgynghoriad. Seiliwyd y dadansoddiad a ddarparir dan 'ymatebion eraill i'r ymgynghoriad' ar y 151 o ymatebion pellach na wnaethant ddilyn strwythur y cwestiynau yn yr ymgynghoriad.

Cwestiwn 1

A ydych chi o'r farn y bydd ein cynnig deddfwriaethol i ddileu amddiffyniad cosb resymol ac atal cosbi plant yn gorfforol yn helpu i gyflawni ein bwriad penodol o ddiogelu hawliau plant? Os 'nac ydw', pam ddim?

Ymateb	Nifer	Canran
Ydw	870	50.3%
Nac ydw	832	48.1%
Ddim yn gwybod	26	1.5%
Cyfanswm	1728	100%

Sylwer: Cafwyd 13 ymateb gwag i'r cwestiwn hwn

Gofynnwyd i'r rhai a oedd wedi ateb 'nac ydw' i'r cwestiwn cychwynnol i nodi pam nad ydynt o'r farn y bydd y cynnig deddfwriaethol yn helpu i gyflawni nod Llywodraeth Cymru, sef diogelu hawliau plant. Ni ofynnwyd i unigolion a atebodd 'Ydw' i gynnig rhesymau dros eu hatebion. O ganlyniad i ffurf y cwestiwn hwn, mae'r dystiolaeth a gasglwyd trwy'r cwestiwn hwn yn yr ymgynghoriad ac y rhoddir crynodeb ohoni isod, yn cynrychioli safbwyntiau ymatebwyr nad ydynt yn teimlo y bydd y cynnig deddfwriaethol yn helpu i gyflawni nod Llywodraeth Cymru o ddiogelu hawliau plant yn bennaf. At ei gilydd, cafwyd 765 o ymatebion ansoddol gan y rhai a atebodd 'Nac ydw' i'r cwestiwn hwn.

Crynodeb o'r themâu a godwyd amlaf yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

- **Yn hytrach na diogelu hawliau plant, bydd y cynnig yn cael effaith niweidiol ar blant trwy:**
 - danseilio hawliau plant i ddysgu am derfynau a disgyblaeth;
 - peidio diogelu plant rhag cael eu cam-drin; ac
 - yn creu fframwaith deddfwriaethol sy'n gosod plant yn erbyn eu rhieni.
- **Bydd y cynnig yn cael effaith niweidiol ar rieni, gwarcheidwaid a gofalgwyr trwy:**
 - droseddoli rhieni; a
 - gwaredu hawliau rhieni i ddewis sut i fagu eu plant.
- **Mae cosb gorfforol resymol a chymedrol yn helpu plant i ddysgu ac mae'n gallu atal niwed.**

- **Mae'r ddeddfwriaeth sy'n bodoli eisoes yn diogelu hawliau plant mewn ffordd ddigonol, ac o'r herwydd, nid oes angen y cynnig hwn.**
- **Mae'r cynnig yn cynrychioli gormod o ymyrraeth gan y llywodraeth ym mynyddau preifat a hawliau teuluoedd.**
- **Cwestiynodd yr ymatebwyr sut y byddai'r cynnig yn cael ei orfodi a'i reoleiddio:**
 - sialensiau wrth weithredu a phlisma'r cynnig; ac
 - nid oes gan awdurdodau cyhoeddus yr adnoddau i orfodi'r cynnig.

Crynodeb o'r sylwadau a wnaethpwyd gan unigolion a atebodd 'Nac ydw' i Gwestiwn 1

Roedd ymatebwyr wedi sôn yn aml am effeithiau negyddol posibl y cynnig i ddileu amddiffyniad cosb resymol ar blant a theuluoedd. Yn hytrach na diogelu hawliau plant, **soniodd ymatebwyr am effeithiau niweidiol posibl ar yr hyn a ystyrir yn hawliau plant.**

Roedd nifer sylweddol o sylwadau wedi amlygu hawl plant i gael eu haddysgu ynghylch terfynau trwy gyfrwng cosb gorfforol resymol a phwylllog. Cynigiodd ymatebwyr bod gan blant yr hawl i gael disgyblaeth effeithiol, sy'n cynnwys "cosb gorfforol resymol".

“Mae gan blant yr hawl i ddysgu am derfynau a disgyblaeth – er eu lles eu hunain – mae disgyblaeth gorfforol resymol yn ffordd ddilys i rieni cariadus wneud hyn, ac yn ffordd a brofwyd ers cryn amser.”

Nododd ymatebwyr na fyddai'r cynnig yn diogelu plant rhag cael eu cam-drin. Awgrymwyd na fyddai'r rhai sy'n cam-drin plant yn cael eu targedu nac yn cael eu heffeithio gan y cynnig.

“Bydd y cam-drin go iawn yn bodoli o hyd, fel y mae ar hyn o bryd, o olwg pawb. Anaml iawn y gwelir cam-drin yn digwydd yn gyhoeddus. Ni fydd dileu'r amddiffyniad hwn yn gwneud unrhyw beth i ddiogelu'r rhai sy'n cael eu cam-drin. Felly, ni chynigir unrhyw fudd ystyrion o ran diogelu hawliau plant, gan na fydd unrhyw gynnydd gwirioneddol mewn diogelwch.”

Mynegwyd pryder gan ymatebwyr eraill ynghylch y ffaith y byddai deddfwriaeth i ddileu amddiffyniad cosb resymol yn creu gwrthdaro o fewn teuluoedd, gan amharu ar berthnasoedd teuluol a bywyd teuluol, gan gael effaith niweidiol ar blant. Nodwyd yn aml gan y rhai a gyfrannodd i'r ymgynghoriad y byddai'r cynnig, yn hytrach na chyflawni'r nod o ddiogelu hawliau plant, yn tansilio gallu rhieni i gynnis arweiniad a disgyblaeth i'w plant, gan arwain at ansefydlogrwydd o fewn teuluoedd ac amrediad o ganlyniadau negyddol anfwriadol ac annisgwyl.

“Does bosib bod gan ein plant yr hawl i gael eu rhoi ar ben y ffordd? ...Gallai'r cynnig hwn droi plant yn erbyn eu rhieni a chymdogion yn erbyn cymdogion, gan arwain at chwalfa bellach yn ein cymdeithas, y mae eisoes yn chwalu.”

Gwelwyd cyfeiriadau helaeth yn nhystiolaeth yr ymgynghoriad at yr effeithiau niweidiol posibl ar rieni, gwarcheidwaid a gofalwyr, o ganlyniad i'r cynnig hwn. Nododd ymatebwyr y byddai gweithredu'r **cynnig yn gwarthnodi ac yn troseddoli rhieni**, gan gynnwys “rhieni gofalgar ac sy'n parchu'r gyfraith”, sy'n defnyddio dulliau “rhesymol a chymedrol” er mwyn disgyblu eu plant.

“Bydd eich cynnig chi yn golygu y caiff rhieni cyffredin a chariadus eu trin fel pobl sy'n cam-drin, gan beri gofid dianghenraid i'w plant, y bydd gofyn iddynt roi tystiolaeth yn erbyn eu tad a/neu eu mam eu hunain.”

Nodwyd yn aml gan yr ymatebwyr ei bod yn ymddangos bod y cynnig yn un gormodol ac anghymesur, a'i fod yn cosbi'r rhieni hynny sy'n manteisio ar ddulliau cyfrifol a phwylllog er mwyn dysgu disgyblaeth i'w plant ym marn nifer o bobl.

“Yn aml, bydd y cynnig hwn yn troseddoli rhieni cyfrifol sy'n smacio eu plant ar eu llaw neu ar eu pen-ôl er mwyn cywiro ymddygiad gwael, nad yw'n peri unrhyw niwed hirdymor iddynt.”

Yn ogystal, ystyriodd ymatebwyr y cwestiwn ynghylch hawliau o bersbectif rhieni a theuluoedd, gan fynegi'r farn bod y cynnig yn **tresmasu ar hawliau rhieni i ddewis sut i fagu a chynorthwyo eu plant**. Mynegwyd y farn yn aml gan ymatebwyr bod gan rieni yr hawl i ddisgyblu eu plant yn y cartref “mewn ffordd sy'n addas yn eu barn nhw”.

“Trwy atal rhieni rhag gwneud eu penderfyniadau eu hunain ynghylch sut i fagu eu plant, byddwch yn lladd ysbryd rhieni, byddwch yn gwneud eu bywydau'n anos ac yn ei gwneud hi'n anos iddynt fod yn rhieni da.”

Nododd ymatebwyr y dylai fod gan riant yr hawl i ddefnyddio “cosb resymol” er mwyn cosbi plentyn sy'n camymddwyn ac sy'n gwrthod derbyn unrhyw ddulliau a thechnegau disgyblu eraill. Awgrymwyd y byddai'r cynnig yn dadrymuso rhieni, yn hytrach na diogelu hawliau plant.

“Mae gan rieni yr hawl i benderfynu ar y ffordd orau o fagu eu plant. Dylid caniatáu iddynt gosbi eu plant, ond o fewn terfynau rhesymol.”

Yn ogystal, mynegwyd y farn yn aml ymhlith ymatebwyr bod **cosb gorfforol resymol a chymedrol yn helpu plant i ddysgu a'i fod yn gallu atal anaf**. Awgrymwyd y gallai cosb ysgafn fod yn angenrheidiol ar gyfer diogelwch plentyn.

“Ni all plant ifanc resymu ynghylch pethau/sefyllfaoedd y byddant yn peri niwed iddynt. Mae cosb gorfforol yn cynnig ffordd resymol o addysgu plentyn ifanc heb beri niwed parhaus, sy'n gallu atal anaf difrifol – e.e. cyswllt gyda pheryglon yn y cartref, rhedeg allan ar ffyrdd, ac ati.”

Nododd ymatebwyr y gellir cyfiawnhau cosb gorfforol fel ffordd o addysgu am bethau da a drwg i blant iau nad ydynt yn gallu deall “effeithiau peryglus posibl eu gweithredoedd mewn rhai amgylchiadau”. Nododd nifer o'r rhai a fynegodd sylwadau wrth ateb Cwestiwn 1 bod cosb gorfforol ysgafn yn aml yn cael ei defnyddio fel dull er mwyn atal niwed neu berygl neu wrth addysgu gwersi am ddiogelwch. Mewn rhai achosion, roedd ymatebwyr wedi cyfeirio'n ôl at y cyswllt gyda hawliau plant:

“Mae gan blentyn yr hawl i fod yn ddiogel. Er enghraifft, mae'n well cael smacn ysgafn ar y llaw na chaniatáu i rywun gyffwrdd arwyneb poeth.”

Mynegodd cyfran sylweddol o ymatebwyr y farn bod **deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes yn diogelu hawliau plant mewn ffordd ddigonol, ac o'r herwydd, roeddent yn teimlo bod y cynnig yn ddianghenraid**. Nododd ymatebion i'r ymgynghoriad bod deddfwriaeth gyfredol yn atal cosb gorfforol annerbyniol a gormodol.

“Mae cyfraith Prydain yn diogelu plant rhag camdriniaeth – trwy droseddoli smacio ysgafn, rydych chi'n creu trafferthion dianghenraid. Os mai'r nod yw peidio troseddoli rhieni da, pam newid y gyfraith? Mae eisoes yn gwahaniaethu rhwng cam-drin corfforol a chamgymeriadau sy'n digwydd unwaith yn unig heb beri unrhyw niwed parhaus.”

Yn ogystal, cyfeiriodd ymatebwyr at y diogelwch y mae'r fframweithiau deddfwriaethol ehangach yn eu cynnig i blant a hawliau teuluoedd, a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn arbennig.

“Mae'r cyfreithiau presennol yn rhai cadarn [wrth ddiogelu] plant rhag niwed, e.e. Erthygl 8 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae hwn yn dal cydbwysedd cyson rhwng hawliau rhieni a phlant yn y teulu. Mae'r newid arfaethedig yn anghymesur ac mae'n tarfu ar y cydbwysedd presennol. Nododd goruchaf lys y DU, o ran erthygl 8, bod yn rhaid gadael i deuluoedd fagu eu plant yn eu ffordd eu hunain, o fewn terfynau.”

Mewn perthynas â'r pwynt uchod, mynegwyd y farn gan ymatebwyr hefyd **bod y cynnig deddfwriaethol yn cynrychioli ymyriad gormodol gan y llywodraeth ym mywydau preifat a hawliau teuluoedd**. Ystyriwyd y cynnig mewn sawl ffordd fel enghraifft o “amhariad di-fudd gan y wladwriaeth mewn bywyd teuluol”, “ymyrraeth anghyfiawn”, ac “ymyrraeth anghyfiawnadwy gan y wladwriaeth” yn y cartref. Dadleuwyd nad yw'r cynnig yn parchu preifatrwydd bywyd teuluol.

“Caiff plant a rhieni eu diogelu gan Erthygl 8 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Yn ddiweddar, dyfarnodd Goruchaf Lys y DU mewn perthynas ag Erthygl 8 'O fewn terfynau, bod yn rhaid gadael i deuluoedd fagu eu plant yn eu ffordd eu hunain'.”

Cwestiynodd ymatebwyr pa mor effeithiol y byddai'r cynnig yn cael ei orfodi a'i reoleiddio. Awgrymwyd y byddai ceisio gorfodi a “phlisma” y cynnig yn anodd mewn gwirionedd (“Sut fydd yn cael ei blisma? Nid oes unrhyw un yn gwybod beth sy'n digwydd y tu ôl i ddrysau caeëdig”) ac y byddai'n rhoi baich bellach ar adnoddau cyfyngedig ar draws asiantaethau cyhoeddus. Yn ogystal, mynegwyd

pryder gan ymatebwyr y gallai sianelu adnoddau at weithredu'r cynnig ddargyfeirio ffocws a chymorth oddi ar y plant hynny "y mae ei wir angen arnynt" ac y maent yn dioddef camdriniaeth mewn gwirionedd.

"Mae'r cynnig yn fesur a fydd yn gwneud mwy o ddrwg na lles os y caiff ei weithredu, oherwydd y bydd yn ymestyn adnoddau yn fwy, gan dynnu rhywfaint o gymorth oddi ar y plant hynny y maent mewn perygl go iawn o ddioddef camdriniaeth."

Crynodeb o'r sylwadau a wnaethpwyd gan unigolion a atebodd 'Ydw' i Gwestiwn 1

Er na ofynnwyd i'r rhai a atebodd 'Ydw' i Gwestiwn 1 nodi rhesymau dros eu hateb, roedd 265 wedi gwneud hynny. Gwelwyd sawl thema yn codi'n aml yn yr ymatebion hyn.

Yn gyntaf – a'r hyn a welwyd amlaf – oedd bod ymatebwyr yn nodi y bydd y cynnig yn sicrhau bod **hawliau plant yn cael eu diogelu a bod plant yn cael yr un diogelwch cyfreithiol ag oedolion**. Mynegwyd cefnogaeth ar gyfer y cynnig gan ymatebwyr, a nododd y bydd yn helpu i sicrhau hawliau plant i gael eu diogelu rhag trais, gan gynnwys hawliau a nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

"Rydw i'n llwyr gefnogol o fwriad Llywodraeth Cymru i ddeddfu er mwyn dileu amddiffyniad 'cosb resymol'. Dylai fod gan blant yr hawl i fanteisio ar yr un diogelwch cyfreithiol rhag ymosodiad ag yr ydym ni'n ei fwynhau fel oedolion a dweud y lleiaf. Mae hwn yn fater sylfaenol sy'n ymwneud â hawliau plant ac mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu mewn ffordd hollol gywir wrth ddefnyddio'r diwygiad hwn fel ffordd o wella'r ffordd yr ydym yn magu ein plant yng Nghymru."

Yn ogystal, nododd ymatebwyr y byddai'r cynnig yn **diogelu plant ac yn eu diogelu rhag niwed**. Roedd hyn yn cynnwys sylwadau a oedd yn pwysleisio y dylid cymryd pob cam rhesymol i ddiogelu plant rhag niwed. Ymhellach, nododd ymatebwyr bod cosbi plant mewn ffordd gorfforol yn gallu arwain at sefyllfa lle y mae'r plant hynny yn fwy tebygol o fod yn dreisgar ac yn ymosodol tuag at eraill. Awgrymodd ymatebwyr **nad yw hi fyth yn angenrheidiol nac yn dderbyniol defnyddio cosb gorfforol** ar blentyn. Nododd rhai ymatebwyr y dylid gwahardd pob math o gosb gorfforol yn unol â'r cynnig.

"Mae gan bob plentyn yr 'hawl' i deimlo'n ddiogel. Ni ddylid caniatáu i oedolion dorri'r hawl hon trwy achosi niwed corfforol i blentyn. Mae plant yn dynwared ymddygiad eraill. Trwy ganiatáu i blentyn brofi niwed corfforol gan y sawl sy'n gofalu amdanynt, byddant yn cael y neges ei bod yn iawn gwneud dolur i eraill. Gallai hyn beri iddynt wneud dolur i blant eraill, neu i oedolion eraill, wrth iddynt dyfu'n hŷn."

Roedd eraill yn dadlau y bydd y cynnig deddfwriaethol yn **gwaredu unrhyw ddryswch neu ddiffyg eglurder ynghylch yr hyn y mae cosb gorfforol yn ei olygu**. Nododd ymatebwyr bod y gwahaniaeth rhwng cosb gorfforol a thrais gormodol yn aneglur ac yn ddryslud, felly bydd dileu amddiffyniad cosb resymol yn sicrhau ei bod yn amlwg y gwaharddir pob math o gosb gorfforol.

“Bydd dileu amddiffyniad cosb resymol yn hyrwyddo hawliau'r plentyn CCUHP a byddant yn cael eu diogelu gan y gyfraith; dylid trin cosb ar gyfer plant diamddiffyn yn yr un modd ag y caiff ei thrin ar gyfer oedolion. Mae'r oes wedi newid ac mae agweddau tuag at ddealltwriaeth o'r hyn sy'n angenrheidiol er mwyn diogelu a chynorthwyo plant ac unigolion wedi newid, a bydd gwahardd defnyddio cosb gorfforol ar blant yn rhoi sylw i gyfraith sydd wedi dyddio. Trwy waredu'r anghysondeb hwn yn y gyfraith, bydd yn anfon neges fwy clir at bob unigolyn nad yw cosbi plant yn gorfforol yn dderbyniol.”

“Ni ddylai plant ddioddef trais mewn unrhyw sefyllfa. Mae ganddynt yr hawl i fyw eu bywyd yn rhydd rhag ofn trais a rhag trais go iawn.”

Cwestiwn 2

Yn ychwanegol at y gefnogaeth a'r wybodaeth sydd eisoes ar gael gennym drwy ein hymgyrch ar fagu plant, a oes unrhyw ffyrdd eraill yr ydych chi'n meddwl y dylen ni eu rhoi ar waith er mwyn cefnogi rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid? Os 'oes', beth yw'r rheini?

Ymateb	Nifer	Canran
Oes	921	55.5%
Nac oes	342	20.6%
Ddim yn gwybod	395	23.8%
Cyfanswm	1658	100%

Sylwer: Cafwyd 83 ymateb gwag i'r cwestiwn hwn

Gofynnwyd i'r rhai a atebodd 'oes' i'r cwestiwn cychwynnol nodi'r mecanweithiau cymorth eraill y dylid eu rhoi ar waith. At ei gilydd, cafwyd 863 o ymatebion ansoddol i'r cwestiwn ychwanegol hwn gan y rhai a atebodd 'oes' i Gwestiwn 2.

Crynodeb o'r themâu a gododd amlaf yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

- **Cynorthwyo rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid i feithrin sgiliau rhianta.** Nododd ymatebwyr y dylid gwneud trefniadau ychwanegol i gynnig cymorth rhianta, gan ganolbwyntio'n arbennig ar:
 - strategaethau rheoli ymddygiad effeithiol;
 - disgyblaeth anghorfforol; a
 - datblygiad plant.
- **Sicrhau mynediad i wasanaethau.** Roedd ymatebwyr yn teimlo bod angen cynyddu mynediad i wasanaethau cymorth i deuluoedd, gan gynnwys gwasanaethau cyhoeddus a'r trydydd sector.
- **Codi ymwybyddiaeth o newidiadau deddfwriaethol arfaethedig.** Roedd sylwadau yn tanlinellu pwysigrwydd sicrhau bod amrediad y sefydliadau sy'n darparu cymorth i rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid ar hyn o bryd, yn cyfleu negeseuon cyson ynghylch:
 - cymorth rhianta yn gyffredinol; a
 - goblygiadau gweithredu'r newidiadau deddfwriaethol arfaethedig.
- **Cymorth ar gyfer plant a phobl ifanc.** Pwysleisiodd ymatebwyr yr angen i addysgu plant a phobl ifanc am ymddygiad da a sgiliau rhianta yn y dyfodol.
- **Ysgolion i gynnig cymorth ac arweiniad i rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid.** Awgrymodd ymatebwyr y dylid cryfhau'r cysylltiadau rhwng yr ysgol a'r cartref er mwyn sicrhau parhad strategaethau rheoli ymddygiad rhwng amgylchedd yr ysgol a'r cartref.
- **Rhoi sylw i amgylchiadau ehangach teuluoedd.** Nododd ymatebwyr bod teuluoedd yn gallu wynebu ystod ehangach o sialensiau cymdeithasol, sialensiau

economaidd a sialensiau sy'n gysylltiedig ag iechyd, y gallent gael effaith negyddol ar sgiliau rhianta.

Crynodeb o'r sylwadau a wnaethpwyd gan unigolion a atebodd 'Oes' i Gwestiwn 2

Y thema a gododd amlaf yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad oedd y dylid gweithredu **mecanweithiau er mwyn cynorthwyo rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid i feithrin sgiliau rhianta**. Nododd ymatebwyr bod cymorth annigonol ar gael yn aml i helpu rhieni i feithrin sgiliau rhianta da. Mae'r math o sgiliau rhianta a godwyd gan ymatebwyr yn cynnwys rheoli ymddygiad, disgyblaeth a datblygiad plant. Nododd ymatebwyr eraill bod angen cymorth rhianta yn gyffredinol, heb nodi prif sgiliau rhianta. Mae'r math o gymorth a nodwyd gan ymatebwyr yn cynnwys mynediad i hyfforddiant neu gyrsiau rhianta ffurfiol (dan drefniant gwirfoddol neu anwirfoddol), gwybodaeth ac arweiniad a mynediad i grwpiau cymorth rhianta cymunedol anffurfiol. Yn ogystal, pwysleisiodd ymatebwyr y dylid addysgu ac annog dulliau rhianta cadarnhaol.

“Arweiniad manwl a hyfforddiant/cymorth ynghylch dulliau disgyblu amgen cadarnhaol i bob rhiant nawr, ac yn y dyfodol, ac i'r holl rieni newydd yn enwedig, fel eu bod yn teimlo'n hyderus a'u bod wedi cael eu grymuso i wneud newid go iawn o ran y ffordd y maent yn rhyngweithio gyda'u plant”.

Y thema nesaf a gododd amlaf oedd y ffaith y dylai **rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid gael mynediad digonol neu fwy o fynediad i wasanaethau** y byddant yn eu cynorthwyo yn ystod y newidiadau deddfwriaethol. Weithiau, cysylltwyd hyn gyda'r thema gyntaf ynghylch cymorth rhianta, wrth i ymatebwyr awgrymu bod mynediad i wasanaethau (gwasanaethau cyhoeddus yn arbennig), yn fecanwaith effeithiol er mwyn cynorthwyo rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid i feithrin sgiliau rhianta. Cyfeiriwyd at wasanaethau teuluol megis Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg fel enghreifftiau o wasanaethau cyhoeddus sy'n gallu cynnig cymorth rhianta. Fodd bynnag, pwysleisiodd ymatebwyr hefyd bod mynediad i wasanaethau cymorth teuluol ehangach yn gyffredinol yn fecanwaith cymorth pwysig; roedd hyn yn cynnwys mynediad i wasanaethau ymweliadau iechyd addas, gwasanaethau iechyd corfforol a meddyliol, gwasanaethau cymdeithasol a sefydliadau cymunedol a chan y trydydd sector.

“Mae gan weithwyr iechyd proffesiynol – gan gynnwys bydwragedd, ymwelwyr iechyd, nyrsys plant, Meddygon Teulu a phaediatregwyr – rôl pwysig i'w gyflawni wrth gyfleu neges glir a chyson i rieni, a dylid eu cynorthwyo i wneud hynny, ar y cyd â chymorth rhianta, addysg a gwasanaethau gwybodaeth yn y sectorau statudol a gwirfoddol.”

Thema gyson arall yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad oedd **y dylid cynorthwyo rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid i wneud eu penderfyniadau eu hunain ynghylch defnyddio cosb gorfforol**, ac o'r herwydd, na ddylid dileu amddiffyniad cosb resymol. Nododd yr ymatebwyr hyn nad oes angen i rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid gael cymorth ychwanegol penodol yn dilyn newidiadau

deddfwriaethol, ond yn hytrach, y dylai'r system eu cynorthwyo i reoli eu bywyd teuluol mewn ffordd resymol, heb ddylanwadau allanol.

Thema gyffredin arall oedd bod **codi ymwybyddiaeth rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid o'r newidiadau deddfwriaethol arfaethedig** yn bwysig. Roedd hyn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o'r newid deddfwriaethol arfaethedig a'r hyn y byddai ei weithrediad yn ei olygu i rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid; pwysleisiodd ymatebwyr bod angen cael ymgyrchoedd a negeseuon clir. Roedd y thema hon yn cynnwys codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r rhesymeg y tu ôl i'r newidiadau deddfwriaethol arfaethedig, gan gynnwys y dulliau rheoli ymddygiad amgen sydd ar gael i rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid.

Roedd pwysigrwydd **addysgu plant a phobl ifanc i gynorthwyo ymddygiad da** wedi codi sawl gwaith hefyd. Roedd y thema hon yn cynnwys addysgu plant a phobl ifanc mewn ffordd effeithiol er mwyn sicrhau ymddygiad da yn yr ysgol, yn y cartref ac mewn cymdeithas. Yn ogystal, roedd yn cynnwys addysgu plant a phobl ifanc am y sgiliau sy'n angenrheidiol er mwyn datblygu eu teuluoedd nhw fel oedolion, a sgiliau rhianta yn arbennig.

“Mae angen i ni addysgu plant yr hyn sy'n dda ac yn ddrwg, felly pan fyddant yn dod yn rhieni eu hunain, gallant wneud y penderfyniad cywir ynghylch dulliau/dulliau gweithredu er mwyn addysgu eu plant”.

Yn yr un modd, o bryd i'w gilydd, cyfeiriodd sylwadau ymatebwyr at yr angen i **ysgolion ddarparu cymorth ac arweiniad i rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid**. Awgrymodd ymatebwyr bod cwmpas i ysgolion sicrhau dilyniant o ran rheoli ymddygiad rhwng amgylchedd y cartref ac amgylchedd yr ysgol, yn ogystal â darparu cymorth ac arweiniad i rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid ynghylch sgiliau rhianta a rheoli ymddygiad.

Y thema olaf a gododd o bryd i'w gilydd mewn ymatebion i'r ymgynghoriad oedd yr angen i **roi sylw i amgylchiadau cymdeithasol, economaidd a phersonol ehangach teuluoedd**, sy'n ymwneud ag ymddygiad plant a gweithredoedd rhieni. Nododd ymatebwyr y gall teuluoedd wynebu ystod eang o sialensiau cymdeithasol, economaidd neu sy'n gysylltiedig ag iechyd, y gallent gael effaith negyddol ar sgiliau rhianta rhieni, gofalwyr neu warcheidwaid.

“Cymorth wyneb-yn-wyneb gwell i rieni, yn enwedig y rhai sy'n rhieni am y tro cyntaf, ac y maent yn nodi eu bod yn cael anawsterau gyda'u hiechyd meddwl, y maent yn anawsterau tymor byr neu sydd wedi bodoli ers tro; yn enwedig iselder ôl-enedigol”.

Crynodeb o'r sylwadau gan unigolion a atebodd 'Nac oes' i Gwestiwn 2

O blith y rhai a atebodd 'Nac oes' i'r cwestiwn cychwynnol (cyfanswm o 342), roedd 36 wedi mynegi sylwadau ychwanegol er gwaethaf y ffaith nad oedd y cwestiwn wedi cynnwys gwahoddiad penodol iddynt wneud hynny. Un thema a gododd yn aml yn y

sylwadau hyn oedd nad oes angen unrhyw fecanweithiau cymorth ychwanegol gan na ddylai'r llywodraeth ymyrryd ymhellach mewn bywyd teuluol.

O blith y rhai a atebodd 'dim syniad' i'r cwestiwn cychwynnol (cyfanswm o 395), roedd 78 wedi mynegi sylwadau ychwanegol er gwaethaf y ffaith nad oedd y cwestiwn wedi cynnwys gwahoddiad penodol iddynt wneud hynny. Unwaith eto, y thema a gododd amlaf yn y sylwadau hyn oedd nad oes angen unrhyw fecanweithiau cymorth ychwanegol gan na ddylai'r llywodraeth ymyrryd ymhellach mewn bywyd teuluol. Nododd ymatebwyr y dylai mecanweithiau cymorth rymuso rhieni i barhau i rianta yn unol â'u gwybodaeth a'u barn nhw.

O blith y rhai na atebodd y cwestiwn cychwynnol (cyfanswm o 83), roedd 25 wedi darparu sylwadau ychwanegol er gwaethaf y ffaith nad oedd y cwestiwn wedi cynnwys gwahoddiad penodol iddynt wneud hynny. Y themâu a gododd amlaf yn y sylwadau hyn oedd y dylid darparu cymorth ychwanegol er mwyn meithrin sgiliau rhianta (sgiliau rhianta cadarnhaol yn arbennig), yn ogystal â mwy o fynediad i wasanaethau cymunedol a gwasanaethau'r sector cyhoeddus.

Cwestiwn 3

Pa fath o weithrediadau/ymddygiadau fydddech chi'n ystyried eu bod yn enghreifftiau o 'gosb gorfforol'?⁶

Cafwyd 1,263 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, sef nifer uchaf yr ymatebion ysgrifenedig i'r cwestiynau yn yr ymgynghoriad. Roedd y sylwadau ysgrifenedig yn amrywio'n fawr: dewisodd nifer o ymatebwyr gynnig rhestrau byr o weithredoedd (enghreifftiau o gosbau) sy'n cyfateb â 'chosb gorfforol' yn eu barn nhw. Roedd eraill wedi cynnig manylion pellach, gan wahaniaethu rhwng gweithredoedd penodol sy'n cyfateb â 'chosb gorfforol' yn eu barn nhw. Mewn rhai achosion, cyfeiriodd ymatebwyr at ddiffiniadau penodol a nodir mewn deddfwriaeth ac mewn ffynonellau eraill. Mae'n arwyddocaol bod ymatebion i'r ymgynghoriad yn datgelu gwahaniaethau rhwng dealltwriaethau a dehongliadau o 'gosb gorfforol'.

Crynodeb o'r themâu a gododd amlaf yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

- **Mae unrhyw fath o gosb gorfforol** [physical punishment] o gwbl yn cyfateb â chosb gorfforol [corporal punishment].
- **Mae cosb gorfforol yn cynnwys taro plentyn, gyda llaw fel arfer.** Defnyddir ystod eang o derminoleg er mwyn dynodi taro plentyn, megis bwrw, smacio neu slapio. Mae ymatebwyr yn nodi hefyd bod cosb gorfforol yn cynnwys taro gyda llaw agored yn hytrach na dwrn caeëdig.
- **Mae cosb gorfforol yn cynnwys taro plentyn ar rannau penodol o'u corff.** Mae ymatebwyr yn nodi rhannau o'r corff lle y gallai plant gael eu taro wrth gael cosb gorfforol, megis y cluniau neu'r dwylo.
- **Mae cosb gorfforol yn cynnwys defnyddio offeryn neu wrthrych er mwyn taro plentyn.** Yn aml, mae ymatebwyr yn nodi'r math o offerynnau neu wrthrychau a ddefnyddir er mwyn taro plant yn ystod cosb gorfforol, neu maent yn nodi bod unrhyw fath o offeryn neu wrthrych yn cyfateb â chosb gorfforol.
- Gwahaniaethau rhwng **disgyblaeth bwyllog ac ystyriol, sy'n cyfateb â chosb gorfforol**, a tharo ymosodol a heb fod dan reolaeth, nad yw'n cyfateb â chosb gorfforol.
- Mae cosb gorfforol yn debygol o adael rhyw **ôl corfforol yn y tymor byr** ar y plentyn, megis marc llaw. Ni ddylai adael ôl dros y tymor hwy.
- Ystyrir bod cosb gorfforol yn rhywbeth **cyflym a dros y tymor byr**; ni ystyrir bod trais parhaus neu ymosodiad estynedig yn gosb gorfforol.

⁶ Noder: geiriad y cwestiwn hwn yn Saesneg oedd: ***What types of actions/behaviours would you consider to be 'corporal punishment'?***

- Mae ymatebwyr yn cyfeirio at **ddiffiniadau safonol neu gyfreithiol** o gosb gorfforol. Mae ymatebion o'r fath yn cyfeirio mewn ffordd gyffredinol at ddiffiniadau y mae'n debygol eu bod yn bodoli mewn deddfwriaeth neu y maent yn cyfeirio at ddiffiniadau penodol o eiriaduron neu ddogfennau cyfreithiol.
- **Codir cosbau anghorfforol hefyd**, megis cosb emosiynol neu feddyliol. Mae enghreifftiau yn cynnwys cadw plant mewn man ar eu pen eu hunain neu weiddi.

Mae ymatebwyr yn aml yn diffinio 'cosb gorfforol' ['corporal punishment'] **fel cosb gorfforol** [physical punishment] **o unrhyw fath**, gan gynnwys 'smacio ysgafn'.

“Unrhyw fath o gyswllt corfforol a gyflawnir er mwyn cywiro ymddygiad.”

“Unrhyw gosbedigaeth gorfforol i blentyn, gan gynnwys smacio.”

“Unrhyw weithredu neu gyfarwyddyd cosbol bwriadol y mae ei ddiben neu ei effaith yn cyfateb â pheri poen corfforol neu annifyrrwch i blentyn.”

Dehonglwyd hyn i gynnwys 'ataliaeth gorfforol nerthol' gan rai ymatebwyr. Fodd bynnag, roedd ymatebwyr eraill wedi nodi bod gwahaniaeth clir rhwng cosb gorfforol a'r weithred o atal plant er mwyn sicrhau eu diogelwch.

“Ni fyddwn yn ystyried bod gweithredoedd sy'n ataliaethau rhesymol o blant er mwyn eu cadw rhag perygl, yn cyfateb â chosb gorfforol.”

Nododd ymatebwyr yn gyson bod cosb gorfforol yn cynnwys taro plentyn, gyda llaw fel arfer. Defnyddiwyd ystod eang o weithredoedd er mwyn dynodi cosb gorfforol, a'r rhai mwyaf cyffredin oedd smacio, taro, slapio, gwthio ac ysgwyd. Yn ogystal, nododd ymatebwyr yn aml bod cosb gorfforol yn cynnwys taro gyda llaw agored yn hytrach na dwrn caeëdig.

“Mae smacio yn cael ei gyflawni gyda llaw agored ac ni ddylai achosi cleisiau. Mae'n amlwg bod taro plentyn neu unrhyw un gyda gwrthrych neu ddwrn caeëdig yn llawer mwy na smacio – cam-drin [ydyw].”

“[Cosb gorfforol yw] taro gan ddefnyddio unrhyw beth ac eithrio llaw agored (sliper, gwregys ac ati).”

Nododd nifer o ymatebwyr bod smacio gan ddefnyddio llaw agored yn cyfateb â chosb gorfforol 'resymol'.

“Nid 'cosb gorfforol' yw smacio ysgafn nad yw'n digwydd yn aml. Mae cosbedigaeth resymol wedi bod yn y Gyfraith ers cryn amser.”

Nododd ymatebwyr eraill bod cosb gorfforol yn cynnwys taro plentyn ar rannau penodol o'u corff. Nododd ymatebwyr rannau o'r corff lle y gallai plentyn gael eu taro yn ystod cosb gorfforol, megis eu cluniau neu eu dwylo.

“Byddai smacio ar y llaw neu'r coesau yn 'gosb gorfforol' resymol.”

“Nid cosb gorfforol yw smacio plentyn ar gefn eu coesau neu ar eu pen-ôl. Mae taro plentyn gyda chansen/gwregys/gwrthrych caled yn gosb gorfforol. Ceir gwahaniaeth clir rhwng curo plentyn a rhoi smac fach iddynt.”

Nododd ymatebwyr yn aml eu bod yn dehongli 'cosb gorfforol' fel rhywbeth sy'n cynnwys defnyddio offeryn neu wrthrych er mwyn taro plentyn. Yn aml, nododd ymatebwyr y math o offerynnau neu wrthrychau a ddefnyddiwyd er mwyn taro plant fel rhan o gosb gorfforol. Barnwyd bod defnyddio cansen, gwregys, pren mesur neu esgid yn cyfateb â chosb gorfforol i nifer o ymatebwyr.

Yn ogystal, cyfeiriodd ymatebwyr at wahaniaeth rhwng disgyblaeth bwyllog ac ystyriol, sy'n cynnwys cosb gorfforol, a tharo ymosodol, mympwyol neu afreolus sy'n mynd y tu hwnt i 'gosb gorfforol' ac sy'n enghraifft o gam-drin.

“Caiff disgyblaeth gorfforol adeiladol ei diffinio fel smac gyda llaw agored ar y traed a'r dwylo neu'r pen-ôl, a rhoi chwip din cymedrol i blentyn, gan ddefnyddio llaw agored, nad yw ei effaith “yn fwy na chochi'r croen dros dro”. Dylid ystyried unrhyw beth arall fel cam-drin, gan gynnwys smacio wyneb neu ben y plentyn, defnyddio offeryn (gwregys neu bren mesur), unrhyw weithred sy'n gadael ôl a chleisiau neu'n waeth, nerth a ddefnyddir pan fo rhywun yn ddig gyda'r nod o beri niwed.”

“Dim estyn ergyd ar ôl gwylltio, ond smac dan reolaeth ar ôl rhoi rhybudd ac esboniad.”

“Mae curo, dyrnu, chwipio, estyn ergyd, taro, tynnu gwallt, pinsio, ac ati yn fathau annerbyniol o gosb gorfforol. Yn bendant, NID cosb gorfforol yw smacio heb ddefnyddio grym gormodol ac mewn cyd-destun digyffro a chariadus fel rhiant.”

Nododd ymatebwyr eraill bod gweithredoedd ac ymddygiad sy'n cyfateb â 'chosb gorfforol' yn dibynnu ar yr effeithiau neu'r ôl sy'n cael eu gadael ar blentyn. Nododd rhai bod unrhyw fath o gosb gorfforol sy'n gadael ôl yn ormodol ac yn mynd y tu hwnt i'r hyn sy'n dderbyniol. Nododd eraill mai 'cosb gorfforol' yw 'slap nad yw'n gadael ôl am gyfnod hir'.

Roedd tystiolaeth o'r ymgynghoriad wedi datgelu gwahaniaeth barn a gwahaniaethau o ran dehongliad ynghylch y mater hwn.

“Cosb gorfforol sy'n gadael ôl/cleisiau ar y plentyn, y maent yn para mwy nag ychydig funudau.”

“Dim ond cosb nad yw'n gadael unrhyw ôl ac na fyddai modd ei dehongli fel cosb gorfforol mewn unrhyw ffordd y mae'r ddeddfwriaeth gyfredol yn ei ganiatáu.”

I eraill, nid oedd gadael ôl yn ffactor pwysig wrth bennu'r hyn sy'n cyfateb â 'chosb gorfforol'.

“[Cosb gorfforol yw] unrhyw achos o daro plentyn, os yw'n gadael ôl neu beidio.”

Yn ogystal, nododd ymatebwyr bod hyd y cyfnod y mae'r weithred o gosbi yn para yn ffactor arall a oedd yn diffinio 'cosb gorfforol' ac a oedd yn ei wahaniaethu rhwng achosion mwy treisgar o gam-drin plant: **ystyrir 'cosb gorfforol' fel rhywbeth tymor byr a chyflym; ni ystyrir trais parhaus neu ymosodiad estynedig fel cosb gorfforol.**

Mae ymatebwyr yn cyfeirio at ddiffiniadau safonol neu gyfreithiol o gosb gorfforol a ddefnyddir eisoes. Mae ymatebion o'r fath yn cyfeirio mewn ffordd gyffredinol at ddiffiniadau y mae'n debygol eu bod yn bodoli mewn deddfwriaeth neu'n cyfeirio at ddiffiniadau penodol o eiriaduron neu ddogfennau cyfreithiol. Cyfeiriodd ymatebwyr at ddiffiniad Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn o gosb gorfforol fel “unrhyw gosb lle y defnyddir nerth corfforol ac y bwriedir iddo achosi rhywfaint o boen neu anesmwythdra, waeth pa mor ysgafn ydyw”.

“Ystyriaif mai cosb gorfforol yw defnyddio cosb gorfforol niweidiol. Mae hwn yn rhywbeth a gaiff ei wahardd eisoes mewn ffordd ddigonol mewn deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes.”

“Mae diffiniad CCUHP yn glir iawn ac yn ddefnyddiol yma: unrhyw gosb lle y defnyddir nerth corfforol ac y bwriedir iddo achosi rhywfaint o boen neu anesmwythdra, waeth pa mor ysgafn ydyw. Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn ddiamwys – mae pob math o gosb gorfforol ar blant yn annerbyniol.”

Yn ogystal, mynegodd ymatebwyr y farn y gall cosb gorfforol gynnwys defnyddio cosbau anghorfforol ar blant. Mae'r rhain yn cynnwys cosbau sy'n ceisio cael effeithiau emosiynol neu seicolegol, gan gynnwys dal plant mewn man ar eu pen eu hunain neu gosbi gormodol ar lafar.

“Unrhyw ddefnydd o nerth corfforol neu fychanu emosiynol gyda'r nod o ddisgyblu plentyn neu o newid eu hymddygiad.”

“Anfon plentyn i rywle i fod ar eu pen eu hunain h.y. dos i dy ystafell (am gyfnodau hir). Cam-drin diraddiol ar lafar a gynlluniwyd i leihau hunan-barch plentyn.”

“Unrhyw weithred y bwriedir iddi achosi dolur neu niwed, boed hynny'n gorfforol neu'n feddyliol, gan gynnwys ymosodiadau ar lafar sy'n diraddio ac yn sarhau plant.”

Cwestiwn 4

A ydych chi'n cytuno â'n dealltwriaeth o'r effeithiau posibl ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru yn sgil y cynnig deddfwriaethol? Os 'nac ydw', pam ddim?

Ymateb	Nifer	Canran
Ydw	611	43.4%
Nac ydw	459	32.6%
Ddim yn gwybod	339	24.1%
Cyfanswm	1409	100%

Sylwer: Cafwyd 332 ymateb gwag i'r cwestiwn hwn

Dim ond 26 ymateb a nodwyd fel rhai a wnaethpwyd gan sefydliadau, ac o blith y rhain, dim ond 6 a nododd eu bod yn gyrff cyhoeddus. Felly, ni chynhaliwyd dadansoddiad ar wahân o safbwyntiau'r 6 chorff cyhoeddus hwn (er bod safbwyntiau'r 26 sefydliad wedi cael eu cynnwys yn y dadansoddiad cyffredinol a gyflwynir isod).

Gofynnwyd i'r rhai a atebodd 'Nac ydw' i'r cwestiwn cychwynol i nodi pam nad oeddent yn cytuno â dealltwriaeth Llywodraeth Cymru o'r effeithiau posibl ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru. At ei gilydd, cafwyd 395 o ymatebion ansoddol gan ymatebwyr a atebodd 'Nac ydw' i'r cwestiwn hwn.

Crynodeb o'r themâu a gododd amlaf yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

- **Byddai gweithredu'r cynnig deddfwriaethol yn rhoi llawer gormod o faich ar gyrff cyhoeddus.** Pwysleisiodd ymatebwyr nad yw'r gyrff cyhoeddus yn cael digon o adnoddau yn barod, ac y byddent yn ei chael hi'n anodd delio â'r llwyth gwaith ychwanegol.
- **Byddai gweithredu'r cynnig deddfwriaethol yn dargyfeirio adnoddau gwasanaethau cyhoeddus i ffwrdd o droseddau neu faterion y bernir eu bod yn rhai mwy difrifol.** Nododd ymatebwyr y byddai adnoddau cyfyngedig gyrff cyhoeddus yn cael eu dargyfeirio o faterion sy'n fwy difrifol ym marn yr ymatebwyr, megis cam-drin plant.
- **Byddai gweithredu'r cynnig deddfwriaethol yn niweidio'r ymddiriedaeth a'r berthynas sy'n bodoli eisoes rhwng gyrff cyhoeddus a theuluoedd.** Yn arbennig, nododd ymatebwyr y bydd dyletswydd ysgolion a gweithwyr proffesiynol iechyd a gwasanaethau cymdeithasol i adrodd pan fyddant yn amau bod cosb gorfforol yn cael ei defnyddio, yn arwain at berthynas o ddiffyg ymddiriedaeth rhwng y gweithwyr proffesiynol hynny a theuluoedd.
- **Mae'n debygol na sylweddolir effaith lawn y cynnig deddfwriaethol ar gyrff cyhoeddus neu nad oes modd ei amcangyfrif yn fanwl.** Mynegwyd pryder gan ymatebwyr nad yw'r effaith ar gyrff cyhoeddus wedi cael ei hamcangyfrif yn fanwl ac y gallai fod yn anodd gwneud hynny.

- **Pryder y byddai'r cynnig deddfwriaethol yn cael ei weithredu mewn ffordd anghyson neu'n cael ei gamddefnyddio.** Weithiau, mynegwyd pryder gan ymatebwyr y gallai'r ddeddfwriaeth gael ei chamddefnyddio yn ystod anghydfodau teuluol neu gymunedol, neu ei hadrodd mewn ffordd anghyson gan y cyhoedd a chan weithwyr proffesiynol gwasanaethau cyhoeddus.

Crynodeb o'r sylwadau a wnaethpwyd gan unigolion a atebodd 'Nac ydw' i Gwestiwn 4

Y thema a gododd amlaf yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad oedd y ffaith y byddai gweithredu'r cynnig deddfwriaethol yn **creu baich ormodol sylweddol ar gyrff cyhoeddus**. Pwysleisiodd ymatebwyr bod y cyrff cyhoeddus dan sylw – megis gwasanaethau cymdeithasol a sefydliadau gorfodi'r gyfraith – eisoes heb fod yn meddu ar adnoddau digonol (ariannol nac adnoddau staff) er mwyn delio â'u llwyth gwaith presennol. Nodwyd y byddai gweithredu'r cynnig deddfwriaethol yn creu llwyth gwaith ychwanegol ar wasanaethau cyhoeddus, ac y byddent yn cael anhawster ei gwblhau o fewn eu hadnoddau presennol. Mewn rhai achosion, nododd yr ymatebion yn benodol bod y llwyth gwaith ychwanegol hwn yn faich dianghenraid i'w rhoi ar wasanaethau cyhoeddus y maent eisoes dan ormod o faich, gan bod y cynnig deddfwriaethol ei hun yn ddianghenraid.

“Bydd hyn yn peri problemau i sefydliadau sy'n gorfodi'r gyfraith, gwasanaethau cymdeithasol, ysgolion ac asiantaethau eraill. Mae'r holl asiantaethau eisoes yn ei chael hi'n anodd ymdopi â'u llwyth gwaith a byddech chi'n creu mwy o waith dianghenraid”.

Y thema nesaf a gododd amlaf yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad oedd y byddai gweithredu'r cynnig deddfwriaethol yn **dargyfeirio adnoddau gwasanaethau cyhoeddus i ffwrdd o droseddau neu faterion a ystyrir yn rhai mwy difrifol** gan ymatebwyr. Yn aml, roedd y thema hon yn gysylltiedig â thema rhoi gormod o faich ar wasanaethau cymdeithasol, wrth i'r ymatebwyr nodi y byddai adnoddau cyfyngedig gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu dargyfeirio tuag at ganolbwyntio ar weithredu'r cynnig deddfwriaethol, yn hytrach na chanolbwyntio ar droseddau neu faterion cyhoeddus sy'n fwy difrifol ym marn yr ymatebwyr. Cafwyd enghreifftiau gan ymatebwyr o droseddau neu faterion cyhoeddus y byddai adnoddau yn cael eu dargyfeirio oddi wrthynt, gan gynnwys cam-drin plant, cynorthwyo plant agored iawn i niwed, troseddau cyffredinol eraill a rhoi sylw i faterion cenedlaethol megis tlodi.

“Dywedir wrthym bod gormod o waith gan y Gwasanaethau cymdeithasol a'r Heddlu, ac mae'n anochel y byddai ychwanegu i lwyth gwaith yr asiantaethau hyn pe byddai amddiffyniad cosb resymol yn cael ei ddileu yn arwain at blant sy'n wirioneddol agored i niwed ac y maent mewn perygl go iawn o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso, yn cael eu hesgeuluso gan yr asiantaethau y maent i fod eu diogelu”.

Thema arall a gododd yn aml yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad oedd **beirniadaeth gyffredinol o'r cynnig deddfwriaethol cyfan**. Nid oedd yr ymatebion hyn yn cyfeirio'n uniongyrchol at yr effaith ar gyrff cyhoeddus, ond roeddent yn mynegi sylwadau cyffredinol yn anghytuno â'r cynnig deddfwriaethol, gan nodi na ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig deddfwriaethol yn eu barn nhw.

Y thema nesaf a gododd yn aml yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad oedd y byddai gweithredu'r cynnig deddfwriaethol yn **niweidio'r ymddiriedaeth a'r berthynas sy'n bodoli eisoes rhwng cyrff cyhoeddus a theuluoedd**. Yn arbennig, pwysleisiodd ymatebwyr y byddai'r ddyletswydd ar gyrff cyhoeddus megis ysgolion, gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol i adrodd am achosion pan geir amheuaeth bod cosb gorfforol yn cael ei defnyddio, yn niweidio'r perthnasoedd llawn ymddiriedaeth sy'n bodoli rhwng cyrff cyhoeddus o'r fath a'r teuluoedd y maent yn eu cynorthwyo yn rheolaidd. Weithiau, pwysleisiodd ymatebwyr y gallai gweithredu'r cynnig deddfwriaethol gynyddu dieithrwch rhwng y cyhoedd a'r awdurdodau sy'n gweithredu'r cynnig.

“Dan eich cynigion chi, byddai rheidrwydd ar unrhyw un sy'n gweithio mewn sefydliad cyhoeddus, megis ysgol, meddygfa, gwasanaethau cymdeithasol ac ati, adrodd am riant pe byddent yn clywed bod plentyn yn cael eu smacio yn y cartref. Byddai hyn yn creu diffyg ymddiriedaeth yn syth rhwng y cyrff hyn a'r teuluoedd y maent yn eu gwasanaethu”.

Thema arall a gododd yn weddol aml yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad oedd y ffaith **nad yw hi'n debygol bod effaith y cynnig deddfwriaethol ar gyrff cyhoeddus wedi cael ei sylweddoli yn llawn neu na ellir ei hamcangyfrif yn fanwl**. Soniodd ymatebwyr ei bod yn annhebygol bod graddfa'r effaith ar gyrff cyhoeddus wedi cael ei sylweddoli'n llawn yn gyffredinol, gan gynnwys nifer yr achosion sy'n debygol o godi, lle y caiff cosb gorfforol ei amau. Weithiau, pwysleisiodd yr ymatebwyr hefyd ei bod yn anodd iawn neu'n amhosibl amcangyfrif yr effaith ar gyrff cyhoeddus mewn unrhyw fanylder.

Y thema olaf a gododd yn weddol aml yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad oedd **pryder y byddai'r cynnig deddfwriaethol yn cael ei weithredu mewn ffordd anghyson neu y byddai'n cael ei gamddefnyddio**. Mynegwyd pryder gan yr ymatebwyr y byddai'r newidiadau deddfwriaethol yn cael eu camddefnyddio gan deuluoedd neu gan gymunedau yn ystod anghydfodau neu y byddent yn cael eu defnyddio trwy ddamwain neu mewn ffordd amhriodol gan blant eu hunain. Weithiau, mynegwyd pryder gan ymatebwyr hefyd ynghylch y ffaith y gallai'r deddfwriaeth gael ei gweithredu mewn ffordd anghyson, gan ddibynnu ar ba mor rhagweithiol y byddai'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol gwasanaethau cyhoeddus wrth adrodd am unrhyw ddefnydd amheus o gosb gorfforol.

Sylwadau gan unigolion a atebodd 'Ydw' neu 'Dim syniad' i Gwestiwn 4

O blith y rhai a atebodd 'ydw' i'r cwestiwn cychwynnol (cyfanswm o 611), roedd 56 wedi mynegi sylwadau ychwanegol er nad oedd y cwestiwn yn gofyn iddynt yn benodol i wneud hynny. Y ddwy thema a gododd amlaf yn y sylwadau hyn oedd cytundeb cyffredinol yr ymatebydd gyda dealltwriaeth Llywodraeth Cymru o'r effeithiau posibl ar gyrff cyhoeddus a phwyslais ar y faich ychwanegol y gallai'r cynnig deddfwriaethol ei rhoi ar gyrff cyhoeddus.

O blith y rhai a atebodd 'dim syniad' i'r cwestiwn cychwynnol (cyfanswm o 339), roedd 42 wedi mynegi sylwadau ychwanegol, er nad oedd y cwestiwn yn gofyn

iddynt yn benodol i wneud hynny. Y thema a gododd amlaf yn y sylwadau hyn oedd nad oedd gan ymatebwyr ddigon o wybodaeth na gwybodaeth i ymateb i'r cwestiwn.

O blith y rhai na wnaethant ymateb i'r cwestiwn cychwynnol (cyfanswm o 332), roedd 9 wedi mynegi sylwadau ychwanegol, er nad oedd y cwestiwn yn gofyn iddynt yn benodol i wneud hynny. Y thema a gododd amlaf yn yr ymatebion hyn oedd y byddai'r newidiadau deddfwriaethol arfaethedig yn arwain at fwy o faich ar wasanaethau cyhoeddus.

Cwestiwn 5

A oes angen canllawiau neu hyfforddiant ychwanegol i gefnogi gweithwyr proffesiynol rheng flaen? Os 'oes', rhowch ragor o fanylion.

Ymateb	Nifer	Canran
Oes	786	56.5%
Nac oes	244	17.5%
Ddim yn gwybod	361	26.0%
Cyfanswm	1391	100%

Sylwer: Cafwyd 350 ymateb gwag i'r cwestiwn hwn

Crynodeb o'r themâu a gododd amlaf yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

- **Canllawiau neu hyfforddiant ychwanegol am y prosesau sy'n ymwneud ag adrodd ac ymchwilio yn benodol.** Pwysleisiodd ymatebwyr bod yn rhaid i weithwyr proffesiynol rheng flaen ddeall y gofynion ar eu cyfer o ran adrodd am ac ymchwilio i ddefnydd amheus o gosb gorfforol.
- **Canllawiau neu hyfforddiant ychwanegol ynghylch ymgysylltu gyda a chynorthwyo rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid.** Mae hyn yn cynnwys cynorthwyo gweithwyr proffesiynol rheng flaen i gyfleu'r rhesymeg dros y newidiadau deddfwriaethol mewn ffordd glir i deuluoedd a chynnig cymorth gyda dulliau rheoli ymddygiad amgen.
- **Diffiniadau clir a diamwys o ymddygiad yn cael eu cynnwys yn y cynnig deddfwriaethol.** Nododd ymatebion y byddai hi'n hanfodol bod gan holl weithwyr proffesiynol rheng flaen ddealltwriaeth gyson a diamwys o union natur y gosb gorfforol nad yw'n cael ei hamddiffyn mwyach gan ddeddfwriaeth.
- **Wedi cael hyfforddiant a chymorth er mwyn adnabod y gwahaniaeth rhwng cam-drin plant a chosb gorfforol.** Roedd yr ymatebion hyn yn pwysleisio y dylai gweithwyr proffesiynol rheng flaen farnu a yw defnyddio cosb gorfforol o fewn teulu yn ddull disgyblu derbyniol neu a oes arwyddion o'r ffaith bod plant yn cael eu cam-drin.
- **Canllawiau a hyfforddiant ynghylch sut i gynorthwyo lles teuluoedd yn ystod ymchwiliadau.** Nododd ymatebwyr bod yn rhaid bod gweithwyr proffesiynol rheng flaen yn gallu cynorthwyo a gofalu am blant y mae eu rhieni, eu gofalwyr neu eu gwarcheidwaid yn destun ymchwiliad, gan gynnwys lleihau unrhyw ofid i'r plant gymaint ag y bo modd.
- **Canllawiau neu hyfforddiant amhenodol i weithwyr proffesiynol rheng flaen.** Nid yw'r ymatebion hyn yn nodi natur y cymorth y mae ei angen ar weithwyr proffesiynol rheng flaen, ond maent yn pwysleisio ei bod yn bendant y bydd angen canllawiau neu hyfforddiant.

- **Adnoddau ychwanegol** er mwyn cynorthwyo gweithrediad y cynnig deddfwriaethol. Nododd ymatebwyr nad oes gan weithwyr proffesiynol rheng flaen adnoddau digonol ar hyn o bryd.
- **Codi ymwybyddiaeth gyffredinol gweithwyr proffesiynol rheng flaen o'r newidiadau deddfwriaethol.** Roedd yr ymatebion hyn wedi mynegi safbwyntiau cyffredinol am yr angen i weithwyr proffesiynol rheng flaen fod yn meddu ar ddealltwriaeth dda o natur y newidiadau deddfwriaethol, ynghyd ag ymwybyddiaeth o sut a phryd y bydd newidiadau yn dod i rym.

Crynodeb o'r sylwadau gan unigolion a atebodd 'Oes' i Gwestiwn 5

Gofynnwyd i'r rhai a atebodd 'Oes' i'r cwestiwn cychwynnol gynnig manylion pellach ynghylch y canllawiau neu'r hyfforddiant sy'n ofynnol er mwyn cynorthwyo gweithwyr proffesiynol rheng flaen. At ei gilydd, cafwyd 690 o ymatebion ansoddol i'r cwestiwn ychwanegol hwn.

Y thema a gododd amlaf yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad oedd y byddai angen i weithwyr proffesiynol rheng flaen gael **canllawiau neu hyfforddiant ychwanegol yn benodol am y prosesau sy'n gysylltiedig ag adrodd am ac ymchwilio** i ddefnydd amheus o gosb gorfforol. Pwysleisiodd ymatebwyr bod yn rhaid i weithwyr rheng flaen proffesiynol ddeall y gofynion sydd arnynt yn llawn, o ran adrodd am ac ymchwilio i ddefnydd amheus o gosb gorfforol. Roedd hyn yn cynnwys dealltwriaeth lawn o'r prosesau cyfreithiol er mwyn adrodd am ac ymchwilio i rieni, gofawyr a gwarcheidwaid a sut y byddai'r prosesau adrodd ac ymchwilio yn gweithio mewn gwirionedd.

“Bydd angen i athrawon, yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol, gweithwyr iechyd a sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant, gael canllawiau clir a hyfforddiant ynghylch sut i adrodd am ac ymchwilio i rieni sy'n defnyddio cosbedigaeth resymol”.

Y thema nesaf a gododd amlaf yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad oedd y byddai angen i weithwyr proffesiynol rheng flaen gael **canllawiau neu hyfforddiant ychwanegol ynghylch ymgysylltu gyda a chynorthwyo rhieni, gofawyr a gwarcheidwaid** ar ôl gweithredu'r cynnig deddfwriaethol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gan weithwyr proffesiynol rheng flaen ddealltwriaeth wych o'r newidiadau deddfwriaethol, sy'n caniatáu iddynt gyfathrebu mewn ffordd glir gyda rhieni, gofawyr a gwarcheidwaid ynghylch sut y bydd y newidiadau yn effeithio ar eu defnydd o gosb gorfforol. Yn ogystal, mae'n cynnwys sicrhau bod gweithwyr proffesiynol rheng flaen yn gallu esbonio ac amddiffyn y rhesymeg dros y cynnig deddfwriaethol i rieni, gofawyr neu warcheidwaid sy'n destun ymchwiliad. Yn olaf, pwysleisiodd ymatebwyr hefyd y bydd yn rhaid i weithwyr proffesiynol rheng flaen gael hyfforddiant er mwyn cynnig canllawiau rhianta ychwanegol i rieni, gofawyr a gwarcheidwaid ar ôl i'r newidiadau deddfwriaethol ddod i rym; er enghraifft, canllawiau ynghylch dulliau rheoli ymddygiad amgen, datblygiad plant a diwylliannau rhianta sy'n newid o fewn teuluoedd.

“Er mwyn cynorthwyo'r egwyddor o sicrhau mai'r dewis cywir yw'r dewis hawdd, dylid darparu hyfforddiant i staff rheng flaen yn y sector statudol a'r trydydd sector sy'n gweithio gyda theuluoedd er

mwyn eu galluogi i gynnig cymorth priodol i rieni a gofalwyr tuag at ddewisiadau rhianta mwy cadarnhaol”.

Thema arall a gododd yn aml yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad oedd y bydd angen i weithwyr proffesiynol rheng flaen gael **diffiniadau clir a diamwys o ymddygiad sy'n cael ei gynnwys yn y cynnig deddfwriaethol**. Nododd yr ymatebion y byddai'n hanfodol bod yr holl weithwyr proffesiynol rheng flaen yn meddu ar ddealltwriaeth gyson a diamwys o union natur y gosb gorfforol na chaiff ei hamddiffyn gan ddeddfwriaeth mwyach. Mae hyn yn cynnwys darparu canllawiau clir er mwyn sicrhau y caiff y cynnig deddfwriaethol ei weithredu mewn ffordd gyson ar draws Cymru ac ar draws gwahanol weithwyr proffesiynol rheng flaen, yn ogystal â nodi'n glir pan fydd disgwyl – ac os bydd disgwyl – i weithwyr proffesiynol rheng flaen arfer eu barn eu hunain.

“Mae'n hanfodol bod yr holl weithwyr proffesiynol rheng flaen dan sylw yn meddu ar yr un ddealltwriaeth o'r hyn y byddai modd ei ystyried fel ymosod gan rieni a'r camau a ystyrir yn rhai priodol ac y maent er budd pennaf y plant”.

Yn yr un modd, un thema a gododd yn aml yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad oedd bod yn rhaid bod gweithwyr proffesiynol rheng flaen **yn cael hyfforddiant ac yn cael eu cynorthwyo i adnabod y gwahaniaeth rhwng cam-drin plant a chosb gorfforol**. Roedd yr ymatebion hyn yn pwysleisio'n aml y dylai fod modd i weithwyr proffesiynol rheng flaen farnu a yw defnyddio cosb gorfforol o fewn teulu yn ddull disgyblu derbyniol neu a oes arwyddion o'r ffaith bod plant yn cael eu cam-drin yn y teulu; roedd yr ymatebion hyn yn aml yn pwysleisio'r thema hon er mwyn mynegi anghytundeb â'r cynnig deddfwriaethol. Mae hyn yn cynnwys yr angen i weithwyr proffesiynol rheng flaen ddefnyddio eu disgrisiwn er mwyn nodi achosion lle y defnyddir cosb gorfforol ond dim ond dan amgylchiadau derbyniol, gan nodi achosion lle y mae'r defnydd a wneir o gosb gorfforol yn cyfateb â cham-drin plant mewn ffordd glir. Mae hyn hefyd yn cynnwys defnyddio disgrisiwn wrth adrodd am ac ymchwilio i gosb gorfforol (yn hytrach na cham-drin plant) er mwyn osgoi troseddoli rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid.

“Credaf y dylai gweithwyr proffesiynol fod yn gallu gwahaniaethu rhwng rhieni sy'n disgyblu mewn ffordd gariadus a'r rhai sy'n cam-drin ac yn gwneud dolur i blant diniwed oherwydd eu hamgylchiadau neu oherwydd diffyg gwybodaeth. Ceir gwahaniaeth enfawr rhwng y ddau a dylai gweithwyr proffesiynol fod yn gallu gweld bod y ddau yn bethau ar wahân, gan gymryd camau priodol er mwyn diogelu'r rhai sydd mewn perygl o gael eu cam-drin.”

Thema arall a gododd yn aml yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad oedd bod yn rhaid i weithwyr proffesiynol rheng flaen gael **canllawiau a hyfforddiant ynghylch sut i gynorthwyo lles teuluoedd yn ystod ymchwiliadau**. Pwysleisiodd ymatebwyr y byddai'r prosesau o adrodd am ac ymchwilio i ddefnydd amheus o gosb gorfforol o fewn teuluoedd yn cael effaith negyddol ar les plant a'u rhieni, eu gofalwyr neu eu gwarcheidwaid. Yn arbennig, nododd ymatebwyr bod yn rhaid bod gweithwyr proffesiynol rheng flaen yn gallu cynorthwyo a gofalu am blant y mae eu rhieni, eu gofalwyr neu eu gwarcheidwaid yn destun ymchwiliad, gan gynnwys lleihau unrhyw ofid posibl i'r plant gymaint ag y bo modd. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod

gweithwyr proffesiynol rheng flaen yn glir ynghylch sut y dylid gofalu am blant, a chan bwy, tra bod ymchwiliad yn cael ei gynnal.

Yn ogystal, mae ymatebion i'r ymgynghoriad yn rhoi sylw yn weddol aml i'r angen am **ganllawiau neu hyfforddiant amhenodol ar gyfer gweithwyr proffesiynol rheng flaen**. Nid yw'r ymatebion hyn yn nodi natur neu graddfa'r canllawiau neu'r cymorth y mae ei angen ar weithwyr proffesiynol rheng flaen, ond maent yn pwysleisio ei bod yn bendant y bydd angen canllawiau neu hyfforddiant os gweithredir y cynigion deddfwriaethol. Mae hyn yn cynnwys ymatebion sy'n nodi y dylid ymgynghori â gweithwyr rheng flaen eu hunain er mwyn penderfynu ar ganllawiau a hyfforddiant priodol.

Thema arall sy'n codi'n eithaf cyson mewn ymatebion i'r ymgynghoriad, yw y bydd angen **adnoddau ychwanegol ar weithwyr proffesiynol rheng flaen er mwyn cynorthwyo gweithrediad y cynnig deddfwriaethol**. Mae'r ymatebion hyn yn pwysleisio nad oes gan broffesiynau rheng flaen (megis yr heddlu a gwasanaethau cymdeithasol) adnoddau digonol yn aml er mwyn delio â'r llwythi gwaith presennol ac y byddai angen iddynt gael adnoddau ychwanegol er mwyn ymateb i lwyth gwaith a allai fod yn fwy o faint wrth ymchwilio i rieni, gofaluwr a gwarcheidwaid yr adroddir eu bod yn defnyddio cosb gorfforol.

Y thema olaf a gododd o bryd i'w gilydd mewn ymatebion i'r ymgynghoriad oedd yr **angen i godi ymwybyddiaeth gyffredinol gweithwyr proffesiynol rheng flaen o'r newidiadau deddfwriaethol** os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen. Roedd yr ymatebion hyn yn cynnig safbwyntiau cyffredinol am yr angen i weithwyr proffesiynol rheng flaen fod yn meddu ar ddealltwriaeth dda o natur y newidiadau deddfwriaethol ac ymwybyddiaeth o sut a phryd y bydd newidiadau yn dod i rym. Roedd yr ymatebion yn pwysleisio bod yn rhaid bod gweithwyr proffesiynol rheng flaen yn wybodus er mwyn iddynt allu dehongli'r ddeddfwriaeth newydd yn eu gwaith o ddydd i ddydd.

Crynodeb o'r sylwadau gan unigolion a atebodd 'Nac oes' neu 'Dim syniad' i Gwestiwn 5

O blith y rhai a atebodd 'Nac oes' i'r cwestiwn cychwynnol (cyfanswm o 244), roedd 36 wedi mynegi sylwadau ychwanegol, er nad oedd y cwestiwn wedi gofyn yn benodol iddynt wneud hynny. Roedd y themâu a gododd amlaf yn yr ymatebion hyn fel a ganlyn: Na fyddai gan weithwyr proffesiynol rheng flaen adnoddau digonol er mwyn gweithredu'r cynnig deddfwriaethol; nad oes angen unrhyw hyfforddiant ychwanegol; mynegi safbwyntiau cyffredinol yn erbyn y cynnig.

O blith y rhai a atebodd 'Dim syniad' i'r cwestiwn cychwynnol (cyfanswm o 361), roedd 27 wedi mynegi sylwadau ychwanegol, er nad oedd y cwestiwn wedi gofyn yn benodol iddynt wneud hynny. Roedd y themâu a gododd amlaf yn yr ymatebion hyn fel a ganlyn: Nad oedd yr ymatebwyr yn gwybod a oes angen mwy o ganllawiau neu hyfforddiant; mynegi safbwyntiau cyffredinol yn erbyn y cynnig; ei bod yn debygol y byddai angen canllawiau neu hyfforddiant ychwanegol amhenodol ac y dylid ymgynghori â gweithwyr proffesiynol rheng flaen eu hunain.

O blith y rhai na wnaethant ateb y cwestiwn cychwynnol (cyfanswm o 350), roedd 20 wedi mynegi sylwadau ychwanegol, er nad oedd y cwestiwn wedi gofyn yn benodol iddynt wneud hynny. Y thema a gododd amlaf yn yr ymatebion hyn oedd y ffaith, os gweithredir y cynnig deddfwriaethol, y byddai'n bwysig codi ymwybyddiaeth yr holl weithwyr proffesiynol rheng flaen o'r newidiadau deddfwriaethol a sut y cânt eu gweithredu.

Cwestiwn 6

Eglurwch sut y gellid llunio neu newid y polisi arfaethedig er mwyn:

- I. cael effaith gadarnhaol neu gynyddu'r effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a
- II. osgoi unrhyw effaith niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Crynodeb o'r themâu a gododd amlaf yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

- **Ystyrir bod ystyriaethau sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg yn amherthnasol i'r cynnig deddfwriaethol.** Nododd ymatebwyr nad yw'r cynnig deddfwriaethol yn berthnasol i'r iaith Gymraeg mewn unrhyw ffordd.
- **Dylid cyfleu'r holl wybodaeth sy'n ymwneud â'r cynnig a'i weithrediad yn ddwyieithog.** Pwysleisiodd ymatebwyr y dylai'r holl ddeunydd cyfathrebu a'r holl ddeunyddiau a ddosbarthir fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- **Nid oes angen gwneud unrhyw newidiadau i'r cynnig deddfwriaethol.** Nododd ymarferwyr bod gofynion yn bodoli eisoes er mwyn sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin mewn ffordd lai ffafriol na'r Saesneg.

At ei gilydd, cafwyd 717 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Y thema a gododd amlaf mewn ymatebion oedd y ffaith bod ymatebwyr yn **barnu bod ystyriaethau sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg yn amherthnasol i'r cynnig** i ddileu amddiffyniad cosb resymol. Roedd hyn yn cynnwys ymatebion yr oeddent yn cwestiynu pa mor berthnasol yw'r cwestiwn o fewn yr ymgynghoriad; gan nodi nad ydynt yn teimlo bod unrhyw gyswllt rhwng yr iaith Gymraeg a'r cynnig; neu'n llai aml, gan nodi na fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith (cadarnhaol na negyddol) ar yr iaith Gymraeg gan nad yw'r materion yn rhai cysylltiedig.

Y thema nesaf a gododd amlaf yn yr ymatebion oedd **y dylid cyfleu'r holl wybodaeth ynghylch y cynnig a'i weithrediad yn ddwyieithog**. Yn arbennig, roedd hyn yn cynnwys ymatebion a oedd yn pwysleisio y dylai'r holl ddeunydd cyfathrebu a'r deunyddiau i'w dosbarthu fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae enghreifftiau o ddulliau cyfathrebu y dylent fod yn ddwyieithog yn cynnwys dogfennau polisi, posteri, ffurflenni a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Roedd yr ymatebion hyn yn pwysleisio hefyd y dylid darparu'r holl gymorth a hyfforddiant sy'n ymwneud â'r cynnig a'i weithrediad yn ddwyieithog.

“Bod deunyddiau sy'n ymwneud â'r newid mewn deddfwriaeth ar gael yn ddwyieithog, gan sicrhau y gall aelodau'r cyhoedd wneud ymholiadau ynghylch y newid trwy gyfrwng y Gymraeg”.

“Dylid hysbysebu unrhyw hyfforddiant a gynigir i rieni ynghylch defnyddio disgyblaeth gorfforol yn Gymraeg, a dylai fod ar gael yn Gymraeg”.

Nododd ymatebwyr hefyd **nad oes angen gwneud unrhyw newidiadau** er mwyn sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin mewn ffordd lai ffafriol na'r Saesneg. Nododd yr ymatebwyr hyn bod gofynion yn bodoli eisoes ynghylch cyfathrebu a darparu cymorth i'r cyhoedd yn ddwyieithog, ac y bydd y gofynion hyn yn berthnasol i'r cynnig hefyd. O'r herwydd, nododd yr ymatebwyr hyn bod cymorth digonol yn bodoli eisoes er mwyn sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin mewn ffordd lai ffafriol na'r Saesneg o fewn y cynnig hwn.

Yn llai aml, mynegwyd sylwadau cyffredinol gan ymatebwyr a oedd yn cefnogi'r iaith Gymraeg neu sylwadau cyffredinol yn beirniadu dulliau polisi tuag at yr iaith Gymraeg (sylwadau nad ydynt yn ymwneud â'r cynnig). Weithiau, roedd ymatebwyr wedi mynegi sylwadau cyffredinol yn cefnogi neu'n beirniadu'r cynnig hefyd (nad oeddent yn gysylltiedig â'r iaith Gymraeg).

Cwestiwn 7

Rydyn ni wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion sy'n gysylltiedig â'r ymgynghoriad hwn nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi.

At ei gilydd, cafwyd 522 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd tua dau o bob tri o'r ymatebion hyn gan unigolion neu sefydliadau yr oeddent yn ysgrifennu i gynnis safbwyntiau neu dystiolaeth yn erbyn dileu amddiffyniad cosb resymol. Roedd yr ymatebion eraill gan unigolion neu sefydliadau yr oeddent yn ysgrifennu i fynegi safbwyntiau neu gyflwyno tystiolaeth o blaid dileu amddiffyniad cosb resymol neu safbwynt neu dystiolaeth mwy niwtral. Mae rhai o'r themâu a gododd amlaf yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn adlewyrchu ac yn pwysleisio themâu a gododd yn chwe chwestiwn cyntaf yr ymgynghoriad hefyd.

Crynodeb o'r themâu a gododd amlaf yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad yr oeddent yn cynnis safbwyntiau neu dystiolaeth yn erbyn y cynnis (mwyafrif yr ymatebion).

- Byddai'r cynnis yn **gwarthnodi ac yn troseddoli rhieni** am ddefnyddio'r hyn a ystyrir yn ddulliau rhesymol er mwyn disgyblu eu plant.
- Byddai'r cynnis yn **tarfu ar hawliau rhieni i ddewis sut i fagu a chynorthwyo eu plant.**
- Mae'r cynnis yn cynrychioli **lefel o ymyrraeth di-alw-amdano gan y wladwriaeth mewn bywyd teuluol.**
- **Nid oes gan wasanaethau cyhoeddus adnoddau digonol** i weithredu'r cynnis.
- **Gall defnyddio cosb gorfforol rhesymol a chymedrol helpu plant i ddysgu ac atal anaf.**
- **Ceir gwahaniaeth clir rhwng cam-drin plant a chosb gorfforol.**
- **Mae deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes yn ddigonol er mwyn diogelu plant,** gan bod cam-drin plant eisoes yn anghyfreithlon.
- Seiliwyd y cynnis **ar dystiolaeth ategol ddiffygiol neu wan.**
- Y byddai'r cynnis yn cael **effaith negyddol ar gymdeithas ehangach** yn y dyfodol.
- **Nad yw defnyddio cosb gorfforol resymol yn peri niwed i'r plentyn.**

Crynodeb o'r themâu a gododd amlaf yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad yr oeddent yn cynnis safbwyntiau neu dystiolaeth o blaid y cynnis neu ymatebion niwtral (sef lleiafrif yr ymatebion, o'u cyfuno).

- **Bydd y cynnig deddfwriaethol yn diogelu hawliau plant trwy gynnig yr un diogelwch iddynt o fewn y gyfraith.**
- **Mae defnyddio trais megis cosb gorfforol wastad yn annerbyniol ac yn ddianghenraid.**
- **Pwysigrwydd canolbwyntio ar newid ymddygiad rhianta.** Dylai ymgyrchoedd a mecanweithiau cymorth ganolbwyntio ar annog rhieni i fabwysiadu dulliau rhianta mwy cadarnhaol.
- **Pwysigrwydd sicrhau diffiniadau clir a diamwys** o ymddygiad a gaiff ei gynnwys yn y cynnig deddfwriaethol.

Roedd y dair thema a gododd amlaf yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad gan unigolion neu sefydliadau yr oeddent yn ysgrifennu er mwyn mynegi safbwyntiau neu dystiolaeth yn erbyn y cynnig fel a ganlyn.

- Y byddai'r cynnig yn **gwarthnodi ac yn troseddoli rhieni** am ddefnyddio'r hyn a ystyrir yn ddulliau "cymedrol a rhesymol" er mwyn disgyblu eu plant. Mynegwyd pryder gan ymatebwyr y byddai rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid yn wynebu cyhuddiadau troseddol am ddefnyddio dulliau a ystyriwyd yn rhai rhesymol yn flaenorol.

"Yr unig beth y bydd y gyfraith hon yn ei wneud yw troseddoli rhieni sy'n dangos gofal a disgyblaeth briodol i'w plant".

- Y byddai'r cynnig yn **tresmasu ar hawliau rhieni i ddewis sut i fagu eu plant a'u cynorthwyo**. Nododd ymatebwyr y byddai'r cynnig yn dileu hawliau presennol rhieni i ddisgyblu eu plant yn y ffordd fwyaf addas, effeithiol a rhesymol.

"Fel rhiant, mae gennyf hawliau. Mae gennyf hawl i benderfynu ar yr hyn sydd orau i'r plentyn a roddwyd i'm gofal, i'w fagu i aeddfedrwyrdd ac i'w anfon allan i'r byd fel unigolyn llwyddiannus. I bob pwrpas, mae newid y gyfraith fel y cynigir yn yr ymgynghoriad hwn yn clymu dwylo rhieni".

- Bodd y cynnig yn cynrychioli **lefel o ymyrraeth di-alw-amdano gan y wladwriaeth mewn bywyd teuluol**. Nododd ymatebwyr na ddylai'r llywodraeth ymyrryd mewn materion teuluol preifat megis dulliau rhianta.

"Mae'r cynnig hwn yn peri cryn bryder gan ei fod yn galw am lefel o ymyrraeth gan y Wladwriaeth mewn bywyd teuluol nas gwelwyd ei thebyg o'r blaen. Yn y bôn, mae'r cynnig hwn yn awgrymu mai'r llywodraeth sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu sut y dylid rhianta plentyn".

Roedd themâu eraill a gododd yn eithaf aml mewn ymatebion i'r ymgynghoriad gan unigolion neu sefydliadau yr oeddent yn ysgrifennu i fynegi safbwyntiau neu dystiolaeth yn erbyn y cynnig fel a ganlyn.

- **Nad oes gan wasanaethau cyhoeddus adnoddau digonol er mwyn gallu gweithredu'r cynnig deddfwriaethol.** Yn ogystal, nododd ymatebwyr y

byddai gorfodi'r cynnig deddfwriaethol yn golygu y byddai'r adnoddau cyfyngedig hyn yn cael eu dargyfeirio o achosion cam-drin plant a throsteddau difrifol eraill.

- Y **gall defnyddio cosb gorfforol resymol a chymedrol helpu plant i ddysgu ac atal anaf**. Nododd ymatebwyr bod defnyddio cosb gorfforol yn ddewis gwerthfawr mewn rhai amgylchiadau, yn enwedig os bydd plentyn mewn perygl neu os bydd dulliau disgyblu eraill wedi methu.
- Bod **gwahaniaeth clir rhwng cam-drin plant a chosb gorfforol**. Pwysleisiodd yr ymatebwyr hyn bod gwahaniaeth clir rhwng cam-drin plant a chosb gorfforol, y bernir ei bod yn ffurf briodol o gosbi a gyflawnir gan rieni. Mae hyn yn cynnwys ymatebwyr yn mynegi'r farn na fydd y cynnig deddfwriaethol yn helpu i ddiogelu plant rhag cael eu cam-drin.
- Bod **deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes yn ddigonol er mwyn diogelu plant**, gan bod cam-drin plant eisoes yn anghyfreithlon.
- Bod y cynnig i ddileu amddiffyniad cosb resymol yn seiliedig **ar dystiolaeth ategol ddifffgiol neu wan**. Nododd ymatebwyr hefyd nad yw'r cynnig yn cynnwys digon o fanylion ynghylch sut y byddai modd gweithredu'r cynnig mewn sefyllfaoedd go iawn.
- Y byddai'r cynnig yn cael **effaith negyddol ar gymdeithas yn ehangach** yn y dyfodol. Nododd ymatebwyr y byddai'r cynnig deddfwriaethol yn arwain at ostyngiad mewn disgyblaeth ymhlith plant a phobl ifanc, a fyddai'n arwain at ostyngiad cyffredinol mewn diogelwch ac ymddygiad dinesig da.
- **Nad yw defnyddio cosb gorfforol resymol yn peri niwed** i'r plentyn. Pwysleisiodd ymatebwyr nad yw defnyddio cosb gorfforol resymol yn arwain at unrhyw niwed i'r plentyn.

Roedd y ddwy thema a gododd amlaf yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad gan unigolion neu sefydliadau yr oeddent yn ysgrifennu er mwyn cynnig safbwyntiau neu dystiolaeth o blaid y cynnig fel a ganlyn.

- Y **bydd y cynnig deddfwriaethol yn diogelu hawliau plant trwy roi'r un diogelwch iddynt o fewn y gyfraith**. Pwysleisiodd ymatebwyr y byddai'r cynnig yn sicrhau bod plant yn cael yr un diogelwch cyfreithiol a'r un hawliau dynol ag oedolion, gan nodi nad yw hyn yn digwydd ar hyn o bryd.

“[Mae'n sefydliad] yn gryf o blaid y newid deddfwriaethol hwn i ddileu amddiffyniad cosb resymol. Credwn y bydd hyn yn diogelu hawliau plant, yn cyflawni rôl mesur diogelu ac yn dangos ein bod yn credu bod gan blant yr un hawliau i gael eu diogelu ac i fod yn rhydd rhag niwed”.

- Bod **defnyddio trais megis cosb gorfforol wastad yn annerbyniol ac yn ddianghenraid**. Nododd ymatebwyr bod defnyddio cosb gorfforol ar blant wastad yn amhriodol, hyd yn oed pan fo'n gosb gorfforol ystyriol dan y deddfwriaeth gyfredol. Maent yn nodi y byddai'r newidiadau deddfwriaethol arfaethedig yn sicrhau bod cosb gorfforol yn hollol annerbyniol.

Thema arall a gododd yn aml yn yr holl ymatebion (y rhai o blaid, y rhai yn erbyn a'r rhai yr oeddent yn mynegi safbwyntiau mwy niwtral) oedd **pwysigrwydd canolbwyntio ar newid ymddygiad rhianta**. Yn ychwanegol i – neu yn lle – y

cynnig deddfwriaethol, nododd ymatebwyr y dylai ymgyrchoedd a mecanweithiau cymorth ganolbwyntio ar annog rhieni i fabwysiadu dulliau rhianta mwy cadarnhaol. Maent yn nodi bod dileu amddiffyniad cosb resymol yn annigonol heb ymgyrchoedd a chymorth i newid agweddau rhieni.

“Mae'n hanfodol bod rhieni sydd wedi smacio eu plant yn dysgu bod ffyrdd eraill o gyfathrebu gyda'u plant, gan helpu ac annog rhieni i newid eu hymddygiad”.

Thema olaf a gododd yn eithaf aml yn yr holl ymatebion (y rhai o blaid, y rhai yn erbyn a'r rhai yr oeddent yn mynegi safbwyntiau mwy niwtral) oedd **pwysigrwydd sicrhau diffiniadau clir a diamwys** o ymddygiad sy'n cael ei gynnwys yn y cynnig deddfwriaethol. Pwysleisiodd ymatebwyr y byddai'n rhaid nodi union natur defnydd cyfreithlon ac anghyfreithlon cosb gorfforol yn glir, heb adael fawr iawn o gyfle i ddehongli ac anghysondeb.

Ymatebion eraill i'r ymgynghoriad

Cafwyd 151 o ymatebion pellach na wnaethant ddilyn strwythur y cwestiynau yn yr ymgynghoriad. Cafwyd y rhain ar ffurf negeseuon e-bost a llythyrau. Nodwyd bod pump o'r ymatebion hyn gan ymatebwyr o'r tu allan i Gymru.

Roedd mwyafrif yr ymatebion hyn gan unigolion neu sefydliadau yr oeddent yn dymuno mynegi safbwyntiau neu dystiolaeth o blaid dileu amddiffyniad cosb resymol. O blith yr ymatebion hyn, roedd y mwyafrif wedi dilyn strwythur a oedd bron yn union yr un fath ac wedi darparu cynnwys a oedd bron yn union yr un fath.

Roedd lleiafrif bach o'r ymatebion hyn gan unigolion neu sefydliadau yr oeddent yn ysgrifennu er mwyn cynnig safbwyntiau neu dystiolaeth yn erbyn dileu'r amddiffyniad cosb resymol. Roedd lleiafrif bach yn ymatebion mwy niwtral gan unigolion neu sefydliadau, yn gofyn cwestiynau ynghylch y cynnig neu'n cynnig awgrymiadau ynghylch dystiolaeth bellach i'w hystyried.

Crynodeb o'r themâu a gododd amlaf yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, yr oeddent yn cynnig safbwyntiau neu dystiolaeth o blaid y cynnig (mwyafrif yr holl ymatebion).

- **Bydd y cynnig deddfwriaethol yn diogelu hawliau plant.** Nododd ymatebwyr bod defnyddio cosb gorfforol yn mynd yn groes i hawliau plant.
- **Mae defnyddio cosb gorfforol yn cael effaith niweidiol ar les plant.** Nododd ymatebwyr bod cosb gorfforol yn cael effaith negyddol ar les cymdeithasol, meddyliol, ymddygiadol ac emosiynol plant.
- **Mynegi cefnogaeth gyffredinol ar gyfer y cynnig,** lle y mae ymatebwyr yn mynegi cytundeb cyffredinol â'r cynnig.
- **Mae defnyddio cosb gorfforol gyda phlant yn aneffeithiol** fel mecanwaith er mwyn cynorthwyo datblygiad neu ymddygiad plant.

Crynodeb o'r themâu a gododd amlaf yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, yr oeddent yn cynnig safbwyntiau neu dystiolaeth yn erbyn y cynnig (lleiafrif yr holl ymatebion).

- Mae'r cynnig yn cynrychioli **ymyrraeth di-alw-amdano mewn bywyd teuluol.**
- Ceir **gwahaniaeth rhwng cam-drin plant a chosb gorfforol.**
- Byddai'r cynnig yn **troseddoli rhieni.**
- **Mae deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes yn ddigonol** er mwyn diogelu plant.
- Mae'r cynnig yn **gwaredu dewis neu hawliau rhieni** ynghylch sut y caiff eu plant eu magu.
- Gallai'r **deddfwriaeth arfaethedig gael ei chamddefnyddio,** megis adrodd

amhriodol.

- Gallai'r cynnig **arwain at effeithiau negyddol ehangach ar deuluoedd a chymdeithas**, gan greu gwrthdaro posibl o fewn teuluoedd a rhwng teuluoedd ac asiantaethau cyhoeddus.
- Nad oes gan **gyrff cyhoeddus perthnasol adnoddau digonol** i weithredu'r newidiadau deddfwriaethol.

Roedd y ddwy thema a gododd amlaf yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad yr oeddent yn mynegi safbwyntiau neu'n cynnig tystiolaeth o blaid y cynnig fel a ganlyn.

- Y bydd y cynnig deddfwriaethol i ddileu amddiffyniad cosb resymol **yn diogelu hawliau plant**. Mynegwyd y farn gan yr ymatebwyr hyn bod defnyddio cosb gorfforol yn mynd yn groes i hawliau plant ac nad yw'n llwyddo i ddiogelu plant mewn ffordd ddigonol. Maent yn nodi y dylai'r cynnig deddfwriaethol fynd yn ei flaen felly.
- Bod **defnyddio cosb gorfforol yn cael effaith niweidiol ar les plant**. Nododd yr ymatebwyr hyn bod tystiolaeth yn awgrymu bod defnyddio cosb gorfforol yn cael effaith negyddol ar les cymdeithasol, meddyliol, ymddygiadol ac emosiynol plant ac yn nes ymlaen yn eu bywydau.

“Ceir tystiolaeth aruthrol sy'n dynodi bod cosb o'r fath yn cael effaith niweidiol ar blant, a bod perygl y bydd yn achosi amrediad o broblemau emosiynol, meddyliol ac ymddygiadol yn ystod eu plentyndod ac yn nes ymlaen yn ystod eu bywydau. Os yw diogelu budd plant wrth wraidd polisi Lywodraeth Cymru, ac os yw'n mynd i gael ei thywys gan y dystiolaeth yn flaenaf oll, ni ellir caniatáu i'r cam o gosbi plant yn gorfforol barhau”.

Cafwyd un ymateb ychwanegol i'r ymgynghoriad gan sefydliad sy'n cynrychioli safbwyntiau plant a phobl ifanc. Yn yr un modd ag ymatebion eraill i'r ymgynghoriad, nid oedd yr ymateb hwn wedi dilyn strwythur saith cwestiwn yr ymgynghoriad, ond roedd yn cynrychioli safbwyntiau 1,157 o blant a phobl ifanc ynghylch a ddylid newid y gyfraith neu a ddylid ei chadw fel ag y mae; roedd 72% o ddisgyblion cynradd a 56% o ddisgyblion uwchradd o'r farn y dylai'r gyfraith newid.

Mae themâu eraill a gododd yn llai aml mewn ymatebion i'r ymgynghoriad o blaid y cynnig yn cynnwys:

- **mynegi cefnogaeth gyffredinol ar gyfer y cynnig**, a oedd yn cynnwys datganiadau gan ymatebwyr yn dynodi eu bod yn cefnogi'r cynnig i ddileu amddiffyniad cosb resymol; a
- bod **defnyddio cosb gorfforol ar blant yn aneffeithiol** fel mecanwaith er mwyn cynorthwyo datblygiad neu ymddygiad plant. Nododd ymatebwyr nad yw defnyddio cosb gorfforol yn cynnig unrhyw fudd i ddatblygiad plant yn y tymor hir a'i fod yn ddianghenraid neu'n wrthgynhyrchiol.

Roedd y themâu a gododd amlaf yn lleiafrif yr ymatebion i'r ymgynghoriad yr oeddent yn mynegi safbwyntiau neu'n cynnig tystiolaeth yn erbyn y cynnig fel a ganlyn:

- bod y cynnig yn cynrychioli **ymyrraeth di-alw-amdano mewn bywyd teuluol**. Mynegwyd y farn gan yr ymatebwyr hyn bod y cynnig yn cynrychioli lefel amhriodol o ymyrraeth gan y llywodraeth mewn bywyd teuluol preifat;
- bod **gwahaniaeth clir rhwng cam-drin plant a chosb gorfforol**. Pwysleisiodd yr ymatebwyr hyn bod gwahaniaeth clir rhwng cam-drin plant a chosb gorfforol, a ystyrir yn ffurf priodol o gosb gorfforol gan rieni;
- y byddai'r cynnig yn **troseddoli rhieni**. Mynegwyd pryder gan yr ymatebwyr hyn y byddai rhieni yn cael eu troseddoli am ddisgyblu plant dan y newidiadau deddfwriaethol arfaethedig;
- bod **deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes yn ddigonol** er mwyn diogelu plant, gan bod cam-drin plant eisoes yn anghyfreithlon;
- bod y cynnig yn **dileu dewis neu hawliau rhieni** mewn perthynas â sut y caiff eu plant eu magu. Mae ymatebwyr yn nodi y dylai rhieni fod yn gallu barnu beth yw cosb resymol a phriodol;
- y **gallai'r ddeddfwriaeth arfaethedig gael ei chamddefnyddio**, er enghraifft wrth i blant neu aelodau ehangach y cyhoedd adrodd am achosion mewn ffordd amhriodol.
- Yn gysylltiedig â hyn, mynegwyd pryderon hefyd ynghylch yr **effeithiau negyddol ehangach ar deuluoedd a chymdeithas** – gyda'r potensial o greu sefyllfa wrthwynebol o fewn teuluoedd a rhwng teuluoedd ac awdurdodau. Cyfeiriodd ymatebwyr at ddiwylliant o gyhuddo pobl a gwrth-gyhuddo, a allai ledaenu o deuluoedd i asiantaethau eraill.
- **nad oes gan gyrff cyhoeddus perthnasol adnoddau digonol** i weithredu'r newidiadau deddfwriaethol.

Roedd lleiafrif o'r ymgynghoriadau eraill yn ymatebion gan unigolion neu sefydliadau a oedd yn cynnig awgrymiadau ynghylch tystiolaeth bellach i'w hystyried. Roedd y rhain yn cynnwys ymatebion o'r tu allan i Gymru, yr oeddent yn darparu tystiolaeth a oedd yn ymwneud â phrofiadau gwledydd eraill wrth iddynt weithredu deddfwriaeth debyg.

Crynodeb o Adborth o Weithgareddau Ymgynghori â'r Cyhoedd

Fel rhan o'r ymgynghori ffurfiol ar gyfer y Bil Dileu Amddiffyniad Cosb Resymol, comisiynodd Llywodraeth Cymru weithgareddau i ymgysylltu â phedair cynulleidfa allweddol:

- Gweithdai 'trafodaeth bord gron' i gynrychiolwyr cyrff rhanddeiliaid
- Grwpiau ffocws gyda rhieni
- Gweithdai gyda phobl ifanc 11-19 oed
- Holiaduron i aelodau'r cyhoedd a gwblhawyd yn ystod sesiynau 'galw heibio'

Cynhaliwyd y gwaith maes ym Mawrth 2018, a rhoddodd 274 o bobl adborth, yn benodol:

- 61 o gynrychiolwyr cyrff rhanddeiliaid⁷
- 55 o rieni
- 54 o bobl ifanc
- 104 o aelodau'r cyhoedd a gwblhaodd holiaduron. O'r rheiny roedd 61 o unigolion yn rhieni i blant dan 18 oed.

Canfyddiadau Allweddol

Mynegwyd safbwyntiau cryf, croyw o blaid ac yn erbyn y cynnig deddfwriaethol o ran ei ddiben a'i effaith bosibl. Mae'r canfyddiadau yn seiliedig ar ymatebion wedi'u coladu gan gyfranogwyr yn y gweithgareddau ymgynghori ac nid ydynt felly yn gynrychioladwy o'r boblogaeth ehangach.

1. Amddiffyn Hawliau Plant

- At ei gilydd, cytunodd 58% o gyfranogwyr y bydd dileu amddiffyniad cosb resymol yn helpu i amddiffyn hawliau plant, anghytunodd 24% ac ni mynegodd y 19% sy'n weddill unrhyw farn.
- Teimlai'r cyfranogwyr fod gan blant hawl i blentynod diogel ac y dylai'r un hawliau gael eu hestyn i blentyn ag i unrhyw oedolyn.
- Dadleuodd o sawl a oedd o blaid dileu'r amddiffyniad ei bod yn annerbyniol i unrhyw un ddefnyddio grym corfforol yn erbyn plentyn ac y dylai fod gan blant yr un amddiffyniad o dan y gyfraith ag oedolion. Roeddent yn teimlo bod y diffiniad cyfreithiol a dderbynnir ar hyn o bryd o gosb resymol yn agored i'w gamddechongli.
- Roeddent yn dadlau y bydd y cynnig deddfwriaethol i ddileu amddiffyniad cosb resymol yn egluro hawliau plentyn o dan UNCRC a chyfrifoldebau rhieni.

⁷ Gweler Atodiad 1 am fanylion

- Dadleuodd y sawl a deimlai na fydd y cynnig yn helpu i amddiffyn hawliau plant, ar y llaw arall, fod hawliau plant yn cael eu hamddiffyn yn ddigonol gan gyfreithiau presennol.
- Teimlent hefyd fod Llywodraeth Cymru, wrth geisio amddiffyn hawliau plant, yn tanseilio hawliau rhieni ac nad oes gan y Wladwriaeth unrhyw hawl i ymyrryd yn y ffordd mae rhieni yn magu ac yn disgyblu eu plant.

2. Deall y Diffiniadau Allweddol

- Petai'r ddeddfwriaeth yn cael ei phasio, ni fyddai amddiffyniad cosb resymol ar gael i rieni yng Nghymru bellach a byddai'r sawl sy'n gweithredu in loco parentis yn wynebu cyhuddiad o ymosod neu guro yn erbyn plentyn sydd yn eu gofal.
- O'u holi, roedd gwybodaeth a dealltwriaeth cyfranogwyr o'r term 'cosb gorfforol' yn amrywio'n sylweddol. Teimlai llawer fod defnydd y ddau derm "cosb 'corporal'" a "chosb gorfforol" yn ymgynwidiol yn nogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru yn gadael eu hystyr yn agored i'w gamddehongli gan weithwyr proffesiynol a chan y cyhoedd ehangach fel ei gilydd.
- Nododd adborth yr angen am ymgyrch addysg gyhoeddus, uchel ei phroffil i helpu rhieni i ddeall y cynnig deddfwriaethol a'i ganlyniadau posibl.

3. Effeithiau Posibl

- Ni ddaeth consensws clir i'r amlwg wrth holi rhanddeiliaid, rhieni ac aelodau'r cyhoedd a oeddent yn cytuno â dealltwriaeth Llywodraeth Cymru o'r effaith bosibl ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru, petai'r gyfraith yn cael ei newid.
- Er eu bod yn cytuno bod effeithiau craidd ar gyrff cyhoeddus wedi cael eu nodi, y farn gyffredinol oedd bod yr effeithiau heb eu hamcangyfrif yn ddigonol a bod effeithiau posibl eraill wedi eu colli, er enghraifft, gallai timau diogelu dderbyn mwy o atgyfeiriadau a allai yn eu tro wyro adnoddau o achosion mwy difrifol o gamdriniaeth plant.
- Teimlai llawer o gyfranogwyr y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu mwy o eglurdeb am y cynnig deddfwriaethol, esbonio'r camau gorfodol a ddisgwylioddi wrth gyrff cyhoeddus a chynnig cyngor am y goblygiadau o ran adnoddau i sicrhau bod gweithlu sydd wedi ei hyfforddi'n briodol yn ei le i ymdopi ag unrhyw gynnydd yn y baich gwaith.

4. Cefnogaeth ychwanegol

O'u holi am yr anghenion am gefnogaeth pe bai'r cynnig deddfwriaethol yn cael ei ddeddfu, cytunodd y mwyafrif o gyfranogwyr y dylai Llywodraeth Cymru:

- Sefydlu cefnogaeth ychwanegol i rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid. Er enghraifft, dylid cynyddu nifer y rhaglenni rhianta mynediad agored, seiliedig ar dystiolaeth, ynghyd ag ymgyrch proffil uchel i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd at sylw rhieni a fydd felly'n datblygu eu dealltwriaeth o'r newid arfaethedig.
- Darparu mwy o arweiniad a hyfforddiant i gefnogi gweithwyr proffesiynol rheng flaen fel yr Heddlu, gweithwyr cymdeithasol ac athrawon, gan ei bod yn

hanfodol datblygu arferion cyson. O ran yr angen am fwy o gefnogaeth, datblygu'r gweithlu a enwyd amlaf a hynny i sicrhau gweithredu'r ddeddfwriaeth.

Atodiad A - Rhestr Ymgynghori

Adran Gofal Cymdeithasol Conwy
Arsyllfa Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc Cymru
Barnardos Cymru
Be Reasonable
Buttle UK
Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru a Lloegr
Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru
Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Campfire Cymru
Canolfan Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc
CARE
Children of Hope
Chwarae Cymru
Clybiau Plant Cymru
Coleg Brenhinol Peditryddon ac Iechyd Plant
Coleg Brenhinol Seiciatryddion Cymru
Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
Coleg Prifysgol Llundain
Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Comisiynydd Plant Cymru
Cronfa Argyfwng Plant Rhyngwladol y Cenhedloedd Unedig
Cronfa'r Teulu
Crynwyr
Crynwyr yng Nghymru
Cymdeithas Chwarae Llandeilo Ferwallt
Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru
Cymdeithas Diogelu Plant Heb eu Geni
Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau
Cymdeithas Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar Proffesiynol Cymru
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cymdeithas Meithrinfeydd Dydd Cenedlaethol Cymru
Cymdeithas y Seicolegwyr Addysg
Cymorth i Ferched Cymru
Cynghorydd Sir Abertawe
Cyngor Gwasanaethau Ieuencid Gwirfoddol Cymru
Cyngor Ieuencid Ceredigion
Cyngor Sir Ceredigion
Cyngor Sir Penfro
Cyngor Trydydd Sector Caerdydd
Dechrau'n Deg
Dechrau'n Deg Caerdydd
Dechrau'n Deg Pen-y-bont ar Ogwr

Eglwys Bresbyteraidd Emaniwel
Eglwys Struthers Castell-nedd
Elusen Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy
Family First New Zealand
Future Harvard International School
Global Initiative to End All Corporal Punishment of Children
Golley Slater
Grŵp Monitro CCUHP Cymru
Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol
Gwasanaeth Erlyn y Goron
Gwasanaethau Cymdeithasol Caerdydd
Gwasanaethau plant a phobl ifanc Castell-nedd Port Talbot
Gwasanaethau Plant Sir Fynwy
GwE
Gweithredu dros Blant
Hope Church – Arian CAP
Hosbis Tŷ Hafan
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Keep 43 Committee of Canada
Koinonia John the Baptist Church
Lleisiau Bach
Meic/Promo Cymru
Mudiad Meithrin
Panel Cynghori Pobl Ifanc Comisiynydd Plant Cymru
Panel Ymgynghorol Pobl Ifanc Comisiynydd Plant Cymru
Partneriaeth Darparwyr Adferol Cymru
Plaid Lafur, Cangen Dinas Powys a Gwenfô
Plant yng Nghymru
Prifysgol Abertawe
Prifysgol Caerdydd
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
Prifysgol De Cymru
Prifysgol Michigan
Prifysgol Stirling
Rhwydwaith Rhieni, Caerffili a Merthyr Tudful
Sefydliad y Menywod Adfa a Chefn Coch
Seicolegydd Cymwysedig, Grŵp Cynghori Arbenigwyr Cenedlaethol Iechyd
Siop Sglodion Emma Street
Teuluoedd yn Gyntaf Gwynedd
Tîm Cymorth Cynnar, Support4families
Tros Gynnal Plant
Vale People First
Wales Humanists
Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol
Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant
Y Sefydliad Cristnogol

Ymddiriedolaeth Addysg Teuluoedd
Yr Eglwys Ddiwygiwedig Unedig
Ysbyty Plant Prifysgol Uppsala, Uppsala, Sweden
Ysgol Gynradd Ynystawe